PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

PRIS 75c | Rhif 405 | Ionawr 2018



**Gwyneth yn Craith**

t.16



**Dewch hen ac ieuainc**

t.9



**Ned yn arwain**


t.4



Megan, Efanna a Manon ym Mhen-llwyn.



Morgan, Iestyn ac Ela Jên Lewis ym Mhen-llwyn.



Mabli, Gruffudd, Gwenno a Lleucu yng Nghapel Madog.

Blwyddyn Newydd dda i chi
Ac i bawb sydd yn y tŷ
Dyma fy nymuniad i
Blwyddyn Newydd dda i chi



Hedd, Iestyn a Gwenno yng Ngoginan.

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**



**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | YTincer@googlemail.com
**TEIPYDD – Iona Bailey**
**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 627916
**GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION Y TINCER – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228
**IS-GADEIRYDD – Richard Owen,**
31 Glan Ceulan, Penrhyn-coch ☎ 820168
**YSGRIFENNYDD – Anwen Pierce**
3 Bryn Meillion, Bow Street ☎ 828337
**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk
**HYSBYSEBION – Cysyllter â'r Trysorydd**

**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**
**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691
**Y BORTH – Grace Bailey**, Pencarreg, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871462
**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Gerddi Gleision ☎ 822074
**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**Mrs Aeronwy Lewis**
Rheidol Banc, Blaengeuffordd ☎ 880 645
**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch ☎ 623 660
**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615
**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309
**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228
**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487
**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642
**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# dyddiadur

**Rhifyn Chwefror** Deunydd i law: Chwefror 2 Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 14

**IONAWR 17** Nos Fercher Talat Choudhri yn sôn am O Essex i Aberystwyth Cymdeithas y Penrhyn yn festri Horeb am 7.30

**IONAWR 18** Nos Iau Recordio Dechrau canu, dechrau canmol (Arweinydd: Alwyn Evans) yng Nghapel y Morfa, Aberystwyth am 6.30

**IONAWR 19** Nos Wener Dewi Hughes 'Digon o ryfeddod' Cymdeithas Lenyddol y Garn yn y festri am 7.30

**IONAWR 20** Nos Sadwrn Cinio Blynyddol Clwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont yng Ngwesty'r Marine, Aberystwyth

**IONAWR 23** Nos Fawrth Recordio Talwrn y Beirdd Radio Cymru ym Medina, Aberystwyth, 7pm. Cwps v Tal-y-bont a Beirdd Myrddin v Derwyddon. Croeso i bawb

**IONAWR 27** Diwrnod Strafagansa Pres yn Ysgol Pen-glais - cystadleuaeth ieuenctid unawd a grŵp am 10.00; canlyniad am 3.00. Gweithdai gyda Band Leyland am 5.00 a chyngerdd gyda Band Leyland am 7.30 Tocynnau: £3 i'r gystadleuaeth; £10 i'r cyngerdd Trefnir gan Seindorf Arian Aberystwyth a Gwasanaeth Cerdd Ceredigion

**CHWEFROR 16** Nos Wener Noson yng nghwmni teulu Elgar. Cymdeithas Lenyddol y Garn yn y festri am 7.30

**CHWEFROR 17** Nos Wener Noson o adloniant yng nghwmni Côr Meibion Machynlleth yng Ngwesty'r Marine, Aberystwyth am 7.00 £25 am fwyd (2 gwrs) ac adloniant. Tocynnau ar gael trwy gysylltu ag Owain neu Fflur ar 01650 511215 neu Gwesty'r Marine 01970 612444

**CHWEFROR 17-18** Dyddiau Sadwrn a Sul Pedair rownd gyn-derfynol Band Cymru (S4C) yng Nghanolfan y Celfyddydau am 2.30 ac 8.00 Tocynnau ar gael o 10.00 y bore dydd Llun 15 Ionawr trwy ffonio 02920 223456

**CHWEFROR 17** Dydd Sadwrn Gwobrau Selar Undeb Myfyrwyr Aberystwyth

**CHWEFROR 19-23** Llun i Gwener Ysgolion Ceredigion ar gau – gwyliau hanner tymor

**MAWRTH 3** DyddSadwrn Parêd Gŵyl Ddewi Aberystwyth

**MAWRTH 3** Nos Sadwrn Noson Hwyl Ddewi gyda Bois y Gilfach yn Neuadd Goffa Tal-y-bont. Adloniant i gychwyn am 7.30; gweinir y cawl am 6.40. £8 i oedolion; £4 i blant ysgol

## Cwis Nadolig Y Tincer

Diolch i bawb wnaeth gystadlu. Yr atebion cywir oedd 1. Aberystwyth; 2. gwybodaeth am y tywydd; 3. Dai Jones; 4. Bang; 5. Heno; 6. Doctoriaid Yfory; 7. Cythrel Canu; 8. Celwydd Noeth. Cafodd nifer ohonoch yr atebion yn gywir a rhoddwyd eu henwau yn het y Golygydd a thynnwyd dau enw allan yn Crefftau Pennau ar Ionawr 11eg. gan Mrs. Miles.

Llongyfarchiadau mawr i Mrs. Mair Lewis, Brynawel, Bow Street am ennill pecyn S4C a Cofio Dic ac i Mrs. Ann Jones, Trêm y Ddôl, Bow Street am ennill Straeon Hud a Lledrith y Celtiaid. (Diolch i Gareth Williams Jones am drefnu y cwis – ac i S4C a'r gweisg am y gwobrau).


Cyhoeddir y Tincer yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

Y mae pawb sy'n ymwneud â'r Tincer yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.



Cysyllter â'r trysorydd os am hysbysebu
**hedyddcunningham@live.co.uk**

**Blwyddyn Newydd - Her Newydd?**
Mae Sioe Aberystwyth yn chwilio am rywun i gynorthwyo gyda gwaith gweinyddol y Babell Cynnyrch a Blodau.


Prif ddiben y gwaith yw derbyn manylion cystadleuwyr yn ystod yr wythnos cyn y Sioe. Mae'r gwaith o baratoi'r llawlyfr wedi ei gwblhau yn barod ac mae tîm o weithwyr ar gael i gefnogi. Gwaith gwirfoddol yw hwn.

Am fwy o fanylion, cysylltwch â Delyth Morgan 01970 820656

**CD Y Pêr Ganiedydd**
Mae CD Y Pêr Ganiedydd – casgliad o emynau William Williams, Pantycelyn o gymanfaoedd Caniadaeth y Cysegr bellach ar gael.

Yr unig CD o waith yr emynydd gyda chanu cynulleidfaol o gyfres Caniadaeth y Cysegr i'w chyhoeddi erioed.

'Dyw hon ddim ar gael yn y siopau ar hyn o bryd ond gallwch ei phrynu wrth gysylltu â ceri@parrogproductions.co.uk neu ffonio 029 20 619767. Caiff ei hanfon atoch. Y Pris yw £10.




## CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer mis Rhagfyr 2017

**£25** (Rhif 181) Dylan Jenkins, Cwmbwa, Penrhyn-coch
**£15** (Rhif 105) Marian B Hughes, 14 Maes-y-Garn, Bow Street
**£10** (Rhif 33) Erddyn James, Lluarth, Taigwynion, Llandre

Enillwyr Gwobrau Nadolig 2017
**£60** (Rhif 24) Beryl Bevan, 1 Gwarfelin, Llanilar
**£40** (Rhif 176) Lewis Evans, Deilyn, Capel Dewi

Fe dynnwyd y rhifau buddugol gan aelodau o'r tîm dosbarthu yn festri Bethlehem, Llandre pnawn Mercher Rhagfyr 20. Diolch i'r aelodau sydd wedi ail ymaelodi ac hefyd croeso i'r aelodau newydd.

## 30 MLYNEDD YN OL



**Hel calennig**
Gareth Humphreys, Alister Dryburgh a Jonathan Lewis yn hel calennig tuag at ward y plant, Ysbyty Bron-glais. Hefyd Mr Hughes Griffiths, Dolawel, sydd yn awyddus i gyfrannu at yr achos da. Casglwyd £46.70. Da fechgyn! (O'r *Tincer* Ionawr 1988)

**CFfI Tal-y-bont a'r cylch**
*Canu Carolau*
Uchafbwynt y mis oedd mynd o amgylch yn canu carolau (neu O Deuwch Ffyddloniaid yn benodol!) i gasglu arian tuag at achosion da. Casglwyd £1,981.71 tuag at yr Ambiwlans Awyr, MIND Aberystwyth a Ward Meurig a diolch i bawb am roi mor hael.

*Cinio blynyddol*
Cynhelir ein cinio blynyddol ar Nos Sadwrn 20 Ionawr yng Ngwesty'r Marine. Croeso cynnes i bawb.

*Pantomeim*
Byddwn hefyd yn dechrau meddwl am gystadleuaeth y panto, felly ni fydd seibiant nawr am rai wythnosau!




Dafydd ap Hywel, Wiliam Jones, Llywelyn Bowen a Gerwyn Jones yn canu'n swynol iawn

## TREFEURIG

**Codi arian i elusen**
Gwelwyd Linda a Lisa, Maesmeurig ar y rhaglen gwis Celwydd golau ar S4C rhwng y Nadolig a'r Calan pan lwyddwyd i ennill cyfanswm o £2,500 at eu dewis elusen – Water Aid.


**Morlan**
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

**CRÊD A GWEITHRED**
**4-25 Ionawr (oriau agor: Mercher i Sadwrn: 10-12 & 2-4)**
Arddangosfa am wrthwynebwyr cydwybodol, recriwtio, heddwch a dal eich tir yn y Rhyfel Byd Cyntaf.

**NOSON GWIS MORLAN**
**7.30, nos Fercher, 7 Chwefror**
Cwis blynyddol ble mae timau o eglwysi lleol yn cystadlu am Darian Her Morlan. Beth am ffurfio tîm? Neu dewch draw i gefnogi!

**morlan.cymru**
01970-617996; post@morlan.cymru

## gan Ben Lake AS ac Elin Jones AC



A hithau'n ddechrau blwyddyn newydd, dyma gyfle i'ch hatgoffa am yr hyn y gall eich aelodau etholedig yn y Cynulliad ac yn San Steffan ei gyflawni ar eich rhan. Prif waith Elin Jones a Ben Lake yw cynrychioli llais Ceredigion yn y ddwy senedd. Er mwyn gwneud hynny'n effeithiol, mae'r ddau yn cynnal cymorthfeydd yn rheolaidd ar draws Ceredigion er mwyn rhoi cyngor a chefnogi etholwyr ein sir.

Mae gwaith Elin a Ben yn cwmpasu ystod eang o bynciau. Mae gwaith etholaeth Elin yn canolbwyntio'n bennaf ar y materion hynny sydd wedi'u datganoli i Gymru, megis iechyd, addysg, tai, trafnidiaeth, amaeth, yr amgylchedd, diwylliant, llywodraeth leol a'r iaith Gymraeg. Mae Ben hefyd yn cefnogi etholwyr gydag amryw o faterion, ond mae'r prif meysydd sydd heb eu datganoli yn cynnwys budd-daliadau, credydau treth, pensiynau, cynhaliaeth plant, Brexit, mewnfudo a visas, heddlu a diogelwch. Mae'r ddau hefyd yn ymdrin â materion sydd heb eu datganoli'n llawn, fel y rheilffyrdd a band eang.

Mae yna nifer o resymau eraill dros gysylltu gydag unai Elin neu Ben. Os ydych am dynnu eu sylw at broblem yn eich cymuned, eu hysbysu am ddigwyddiad yn eich ardal, neu os am estyn gwahoddiad iddynt ymweld â chymdeithas  leol, mae croeso i chi gysylltu. Mae Elin a Ben hefyd ar gael i roi cefnogaeth i brosiectau cymunedol neu i gefnogi ceisiadau am grantiau fyddai'n elwa cymdogaethau Ceredigion. Mae hefyd croeso i etholwyr drefnu i ymweld â naill ai'r Cynulliad Cenedlaethol neu Senedd San Steffan, felly os am drefnu taith, cofiwch gysylltu!

I wneud apwyntiad cysylltwch â'r swyddfeydd etholaeth perthnasol:
Elin Jones: 01970 624516
Ben Lake: 01570 940333

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
**CROESAWIR ARCHEBION GAN UNIGOLION AC YSGOLION**
13 Stryd y Bont, Aberystwyth
**01970 626 200**

## Eisteddfodau yr Urdd Ceredigion

**MAWRTH 2** Dydd Gwener
Gŵyl Offerynnol Cynradd ac Uwchradd yn yr Hen Goleg, Aberystwyth.

**MAWRTH 7** Dydd Mercher
Rhagbrofion Eisteddfod Cylch Aberystwyth yn Ysgolion cynradd y cylch.

**MAWRTH 7** Dydd Mercher
Eisteddfod Uwchradd yr Urdd cylch Aberystwyth yn Ysgol Gyfun Penweddig.

**MAWRTH 8** Dydd Iau
Eisteddfod Cynradd cylch Aberystwyth yn y Neuadd Fawr, Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth.

**MAWRTH 8** Nos Iau
Eisteddfod Rhanbarth Ceredigion Aelwydydd yr Urdd yn y Neuadd Fawr, Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth am 6.00.

**MAWRTH 16** Dydd Gwener
Gŵyl Ddawns yr Urdd Rhanbarth Ceredigion yn Ysgol Bro Teifi, Llandysul

**MAWRTH 23** Dydd Gwener
Eisteddfod Uwchradd yr Urdd Rhanbarth Ceredigion ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid o 9.00 yb.

**MAWRTH 25** Dydd Sadwrn
Eisteddfod cynradd yr Urdd Rhanbarth Ceredigion ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid am 9.00 yb.

# ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Catrin a Luke, Troedrhiwlas, ar enedigaeth Sam ar ddydd Calan. Calennig arbennig i Dic a Beryl, Troedrhiwceir. Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i chi fel teulu.

**Colled**
Ar ddiwedd y flwyddyn collodd Cwmrheidol un o gymeriadau annwyl - sef Aneurin Morgan, y Byngalo, ar ôl gwaeledd eithaf hir ond a ddioddefodd yn ddewr iawn. Estynnwn ein cydymdeilad dwysaf â Gwen ei briod, Meinir a Geraint, Dwynwen a Richard a Beca a Tomi ei ŵyr a'i wyres. Bydd teyrnged i Aneurin yn ymddangos y mis nesaf.

**Urdd y Benywod**
Cafwyd penwythnos prysur cyn y Nadolig eleni eto. Cynhaliwyd y Parti Nadolig ar y nos Sadwrn ac eleni mi roedd yna nifer o blant yn disgwyl yn eiddgar am Siôn Corn. Ni chawsant eu siomi, daeth yn llwythog a'i sach yn llawn o anrhegion. Diolch i Steve Briggs am ei waith arbennig eleni eto. Cafwyd noson gartrefol iawn gyda phawb yn mwynhau y wledd, canu carolau ac ennill gwobrau yn y raffl. Diolch o galon i bawb am eu cydweithrediad eleni eto. Nos Lun aeth tair aelod o amgylch Cwmrheidol i ganu carolau, sef Elizabeth, Beti a Kirsty, Llainfach, ac mi drefnodd Elen ac Alice barti bach o blant i ganu o amgylch Aber-ffrwd. Cafwyd croeso cynnes gan bawb a llwyddwyd i gasglu dros £300 - swm sylweddol iawn a fydd yn cael ei roi i elusen Hospis yn y Cartref. Diolch o galon i bawb am fod mor hael ac am y croeso ymhob cartref. Diolch yn arbennig i'r plant a'u rhieni.



Plant y parti gyda Siôn Corn

# CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN

**Suliau Pen-llwyn**

*Ionawr*

**21** 10.00 Peter Thomas
**28** 10.00 Oedfa'r ofalaeth

*Chwefror*

**4** 5.00 Bugail
**11** 2.00 Bugail
**18** 2.00 Adrian Williams
**25** 5.00 Carwyn Arthur

**Triniaeth Meddygol**

Mae Mr Richard Evans, Murmur y nant, a Mrs Phillis Hammond, Troedrhiwlwba, y ddau wedi cael triniaeth i'w llygaid (cataract) yn digwydd bod ar yr un diwrnod. Gobeithio bod y driniaeth yn llwyddiannus a'r ddau wedi llwyr wella erbyn hyn. Cofion gorau iddynt.

**Parti yr Ysgol Sul**

Cynhaliwyd parti i blant yr ysgol Sul, prynhawn Gwener ar ôl y Nadolig. Bu y gweinidog yn eu diddori cyn dangos fidio o hanes bywyd yr Iesu. Ar ôl hynny cawsant de hyfryd wedi eu paratoi gan yr athrawon, cracers wedi eu rhoi gan Penny a Garry Allen. Tŷ Capel, ac anrheg bob un am eu ffyddlondeb i'r ysgol Sul, cyn mynd tua thre. Hyfryd gweld ein haelod hynaf wedi derbyn y gwahoddiad unwaith yn rhagor a'i bod yn ddigon da ei hiechyd i ymuno ym mharti y plant. Nid oes eisiau dweud pwy? Ac wrth gwrs, eleni, diolch am bresenoldeb a help Lowri - priod ein gweinidog.

**Damweiniau**

Dymunwn yn dda hefyd i Mr Richard Hogger, Plas Melindwr, wedi syrthio a gorfod cael glin newydd, mewn ysbyty yn Swydd Efrog, dros y Nadolig. Hen dro!



**Plant yr ysgol Sul, capel Pen-llwyn yn barod i fynd i mewn i berfformio drama'r geni.**

Dymuniadau gorau i Raymond a Nia Davies, Ceunant, wedi dioddef damwain car ar y 10fed Ionawr, yn teithio adref o'r gwaith. Digwyddodd ychydig islaw i Blaengeuffordd, pan oedd, mae'n debyg, gaead twll archwilio ( man hole) heb fod yn ei le yn iawn, ac achosi y car i golli olwyn, cyn croesi i och arall y ffordd, bwrw y banc ac yn llythrennol i hedfan mewn i'r cae. Oni bai fod Nigel Williams yn trafaelu yn y cyfeiriad arall, a chlipio y car yn anfwriadol, newid ychydig bach o'i gyfeiriad, buasent wedi mynd i mewn yn syth i bostyn teliffon yn y cae. Wedyn gall y canlyniad fod wedi bod dipyn yn wahanol. Yn wyrthiol diolch nad oedd eu hanafiadau ddim yn ormodol, ond wrth gwrs, roedd yn sioc fawr. Da o beth eu bont yn gwisgo eu gwregysau. Mor syml gall damweiniau fel hyn ddigwydd mewn amrantiad, heb fod unrhyw fai ar y gyrrwr.

**Genedigaeth**

Mae Mrs Maggie Jones, Haulfryn, yn hen fam-gu am yr aildro. Ganwyd yn ddiweddar i Louise ac Andy yn Lerpwl, ferch fach - Lola Poppy. Geraint a Sandy yw ei mam-gu a thad-cu. Fel y gwyddoch mab Maggie Jones yw Geraint, a chofiwn amdano yn chwarae o gwmpas ei gartref, yn hogyn bach direidus, yn ateb i'r ffugenw Poppet.! Llongyfarchiadau i'r teulu i gyd.

**Car bach coch**

Osian Wynne – 6 mlwydd oed – wrth ei fodd gyda dad-cu, yn y car bach coch, a diddordeb mawr yn yr offer rheoli'r Awstin 7. Dod i ymweld, cyn y nadolig, a'i mam a'i thad Mr a Mrs Wynne Jones, Tanygaer, a wnaeth Hannah, gyda'i phriod Owain ac Osian bach – y teulu yn byw ar hyn o bryd yn Santiago, Chile.

Bu Wynne yn gweithio ar yr Awstin 7. 1930, yn gwneud beth a elwir yn atgyweiriad nyten a bollt, hynny yw 'nut and bolt restoration'. Fel hobi, mae Wynne wrth ei fodd gyda hen geir, a chymerodd ddwy flynedd i gael yr Awstin bach, yn deilwng i'r ffordd fawr. Wel mae'n sicr bydd Osian yn edrych ymlaen am gael taith fach arall gyda dad-cu yn fuan iawn. Dymuniadau gorau i'r teulu bach yn ôl yn Chile.

Mae un o'r ardal, yn cofio taw ond rhyw bedwar car oedd yn y pentref ar ryw adeg, yng nghanol y tridegau, a rhai hynny i gyd yn Austin. Er diddordeb, dyma eu henwau, Williams Maesbangor, Thomas Fronhaul, Hughes Minafon, a Jack Humphreys, Dolypandy. Y mae'n debyg mai garej Gwalia oedd cyflenwr yr Austin, y pryd hynny. Peth da fyddai cael gweld Wynne a'i gar yn sioe y pentref efallai, nes ymlaen yn yr haf.



# Y BORTH



**Ysgol Sul St Matthew**

Dydd Sul Rhagfyr 17eg perfformiodd plant ac ieuenctid Ysgol Sul St Matthew eu drama'r geni yn yr Eglwys. Canwyd, llefarwyd ac actiwyd y stori arbennig hon. Ysgrifennwyd y gweddïau gan Anna, Eliza a Toohey ac roedd y grŵp cyfan yn wych. Roedd mor dda gweld cymaint o deuluoedd a chyfeillion yn yr eglwys yn cefnogi yr Ysgol Sul a dathlu stori'r Nadolig.

**Swydd newydd**

Dymuniadau gorau i Aled Rees – gynt o Glanwern – cyn ddisgybl o Ysgol Rhydypennau – sydd newydd ddechrau ar swydd newydd fel pennaeth Ysgol Gynradd Gymraeg Teilo Sant yn Llandeilo.

# PENRHYN-COCH

**Suliau Horeb**

*Ionawr*

**21** 2.30 Sion Meredith
**28** 10.30 Dr Rhidian Griffiths

*Chwefror*

4 2.30 Y Parchg Peter Thomas Oedfa gymun
11 10.30 Y Parchg Judith Morris Oedfa deuluol
**18** 2.30 Beti Griffiths
**25** 10.30 Y Parchg Adrian Williams

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn â Mair Evans, Glan Ceulan, ar farwolaeth perthynas ym Mlaen-plwyf.

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau i Jane a William Richards ar enedigaeth mab – Henry Arthur – ar 5 Ionawr; ŵyr i Richard a Helen Edwards, Cwrt.

**Horeb**

Dydd Sul Rhagfyr 17 cynhaliwyd gwasanaeth Nadolig Horeb dan ofal y Parchg Peter M. Thomas gyda chyfraniadau gan Gwenno ac Annwen Morris, Parti Merched Horeb ac ymweliad a Siôn Corn (gyda chymorth Richard Owen). Diolch i Mairwen Jones am addurno y capel.

Yng ngwasanaeth cymun cyntaf y flwyddyn derbyniwyd Moira Wrigley yn aelod gan y Parchg Peter Thomas. Magwyd a bedyddiwyd Moira (née Evans) yn Horeb a dychwelodd i fyw i'r ardal yn ddiweddar.





**Plygain**

Cynhaliwyd y 27ain blygain yn Eglwys Sant Ioan, dan nawdd Cymdeithas y Penrhyn, nos Iau 21ain Rhagfyr . Gweinyddwyd gan y Parchedig Lyn Lewis Dafis a darllenwyd y llith gan y Parchg Wyn Morris. Cymerwyd rhan gan y Parchg Lyn Lewis Dafis, Pedwarawd Glanrafon, Cantorion Aberystwyth, Linda Jones, Parti'r Parc, Trefor Rhiannon ac Eleri, Robat, Ieuan ac Emyr, Angharad Fychan, a Cantre'r Gwaelod. Cyflwynwyd y casgliad – £316.40 i Feiciau Gwaed Cymru. Cafwyd swper yn dilyn yn Neuadd yr Eglwys.



Trefor, Rhiannon ac Eleri



Ieuan a Robat Edwards ac Emyr Puw



Pedwarawd Glanrafon



Cantorion Aberystwyth

**Penodi i swydd**

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Cerys Humphreys, Cysgod y Dderwen, ar gael ei phenodi yn Swyddog Cyhoeddus Iechyd Gwynedd a Môn.



**Gwelwyd priodas Jasmine a Trystan Lewis ym Mharc Gwledig Margam yn ddiweddar ar 'Priodas Pum Mil' ar S4C. Dymuniadau gorau iddynt.**



Dafydd a Trystan

**Geni ŵyr**

Llongyfarchiadau hefyd i Dic a Ceri Williams, Llanddeiniolen – gynt o Cae Mawr - ar enedigaeth ŵyr – ganwyd Eban Llew ar Ionawr 13 – mab Rhian Haf a Spike; brawd bach i Greta.

**Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch**

Cynhelir Eisteddfod Penrhyn-coch eleni ar Ebrill 27-28. Y beirniaid fydd: Nos Wener – Efan Williams (Cerdd), Rhian Gareth (Llefaru); Dydd Sadwrn: Mari Pritchard (Cerdd), Rhian Parry (Llefaru), Hywel Griffiths (Llenyddiaeth).

**Ffordd ar gau**

Er i'r rhybuddion cynharaf awgrymu y byddai y ffordd C10110 rhwng croesffordd y A4159 ac adeiladau IGER ac Undeb Amaethwyr Cymru ar gau o Ionawr 1af deallir erbyn hyn mai y dyddiadau yw o ddydd Llun 29 Ionawr hyd dydd Gwener 13 Ebrill. Bydd modd i draffig deithio ar yr U1064, sef y ffordd ddefnyddir i deithio fel arfer am Bow Street, tra bydd gwaith yn digwydd ar yr C10110.

**Pel-Droed**

Tim 1af - Cynghrair Huws Gray
6ed Ionawr Gresffordd Athletig 2 Penrhyn-coch 2
30ain Rhagfyr Penrhyn-coch 1 Cegidfa (Guilsfield) 1
16 Rhagfyr Caernarfon 5 Penrhyn-coch 0
Ni chwaraeodd y tîm merched.

# Colofn Enwau Lleoedd

**Mwnwg**

Yn y ddwy golofn ddiwethaf trafodwyd yr ymadrodd *torri gwddwg* mewn enwau lleoedd yn dynodi nentydd gyda chwymp dŵr neu'n disgrifio tiroedd neilltuol o serth. Y tro hwn, rwyf am barhau ar yr un trywydd, ond gan edrych ar yr elfen *mwnwgl* neu *mwnwg*, sy'n golygu 'gwddwg'.

Ychydig i'r gorllewin o bentref Pontarfynach mae ffrwd gref a elwir ar fapiau'r Arolwg Ordnans yn *Nant y Fawnog*. Tardda un gangen ohoni uwchlaw Rhydypererinion, a daw'r llall o gyfeiriad Bwlch-crwys, gan uno ger Brynperfedd. Yna mae'n llifo tua'r dwyrain heibio i Dy'ncastell, o dan reilffordd Cwm Rheidol, ac i lawr y llethr i waelod dyffryn. Rhwng Ty'ncastell a thrac y rheilffordd, mae'r nant yn disgyn drwy gyfres o raeadrau bychain, ond islaw'r trac, mae'n cwympo ar ei phen rai cannoedd o droedfeddi i afon Rheidol.

Mae'r elfen *mawnog* yn yr enw yn awgrymu 'tir corslyd lle câi mawn ei dorri', a byddai hynny'n gweddu i rannau uchaf *Nant y Fawnog*. Ond mae'n werth ystyried un posibilrwydd arall, ac rwy'n ddiolchgar iawn i John Williams, Bwlch Bach, Southgate, am dynnu fy sylw at y cofnod sy'n dilyn.

Mewn erthygl dan y pennawd 'Local Lore: Devil's Bridge and District: Gleanings from the Past' ym mhapur newydd y *Welsh Gazette* yn 1923, mae Thomas Richards yn sôn am yr un nant fel hyn:

*'Nant ar Fwnwg, which is a fall directly below Pen Ty'n Castell towards the east. The brook here makes a sheer drop of 500 feet into a dark and inaccessible recess of the Rheidol gorge. The name Nant ar Fwnwg is supposed to mean the river (that falls upon) its neck, i.e., "The breakneck brook" or "Headlong brook." The name is allied to the Welsh idiom "Pen dra mwnwg." i.e. ... headlong'.*

*Welsh Gazette* **11 Ionawr 1923, t. [6]**



*Nant ar Fwnwg yn disgyn i Gwm Rheidol*


Ni wn am unrhyw gofnod arall o'r enw hwn, ond mae'n amlwg yn ddisgrifiad o ddŵr y nant yn disgyn bendramwnwgl i lawr y dibyn rhwng y rheilffordd ag afon Rheidol. Os felly, mae'n enw i'w gymharu â'r nentydd torri gwddwg a drafodwyd eisoes.

Oherwydd tebygrwydd yr elfennau *mwnwg* a *mawnog* yn y ddau enw, tybed ai llygriad yw *Nant y Fawnog* o *Nant ar Fwnwg*, a hynny o bosibl am fod yr elfen *mwnwg* yn llai cyfarwydd i bobl?

Mae'n werth dwyn cymhariaeth â'r enw *Troed-y-rhiw Mwnwg* am annedd sydd wedi ei lleoli yng nghysgod llethr hynod o serth rhwng Pumsaint a Chil-y-cwm yn sir Gaerfyrddin. Awgryma'r enw bod y rhiw hwnnw mor serth fel bod perygl i rywun syrthio'n bendramwnwgl.

**Angharad Fychan**

**Paratowyd gyda chefnogaeth Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru a'r Cynllun GWARCHOD**
**www.cymdeithasenwaulleoedd.cymru**




*Map 1:25000 yr Arolwg Ordnans, 1956*
*Atgynhyrchwyd gyda chaniatâd Llyfrgell Genedlaethol yr Alban*

*Crefftau Pennau*
*Coffi Boreuol*
*Byrbrydau Poeth neu Oer*
*Cinio*
*Te Prynhawn*
*Crefftau Ac Anrhegion*
Ar gau ar ddydd Llun
Brecwast ar gael
01970 820 050
Pennau

**R.J.Edwards**
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerrig mân
01970 820149
07980 687475

TACSI EDDIE
Perchennog: Connie Evans, Gwawrfryn, Penrhyn-coch
01970 828 642
07790 961 226

**Cofiwch gefnogi eich busnesau lleol**

GWASANAETH CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ
01970 828454
lindagriffiths01@btinternet.com

# BOW STREET

**Capel y Garn**
**Suliau**
**10 a 5**
*Ionawr*
21 Gweinidog
28 Oedfa'r ofalaeth yn y Garn Gweinidog
*Chwefror*
4 10.00 yn Noddfa
11 Y Parchg Roger Ellis Humphreys
18 Gweinidog – cymun (bore)
25 Bore – J. Emrys Jones

**Noddfa**
*Chwefror*
4 10.00. Gweinidog.
11 10.00. Gweinidog. Cymundeb.
18 10.00. Cyfeillach.
25 2.00. Gweinidog

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Sara a Sion, Penrhiw, ar enedigaeth Alys Gwenllian England nos Lun 18 Rhagfyr.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â'r Parchg W.J.Edwards a'r teulu. Tregerddan ar farwolaeth cyfnither ym Mlaen-plwyf.

**Ymddeoliad**
Dymuniadau gorau i Dai Evans, Trewylan, sydd wedi ymddeol ar ôl 25 mlynedd o wasanaeth yn IGER Gogerddan/IBERS Prifysgol Aberystwyth. Ymddeoliad hapus iddo.

**Priodas Aur**
Llongyfarchiadau i Emyr a Mair Jones, Cân y Gwynt, Maes-y-garn ar ddathlu ei briodas aur ar 20 Ionawr.

**Pen blwydd Sbesial**
Pen blwydd hapus i Mair Lewis, 40 Maesceiro ar gyrraedd oed yr addewid ar 25 Ionawr. Paid a dathlu gormod!

**Nadolig Capel y Garn**
Cyfarfod y Gymdeithas ar Ragfyr 15ed agorodd y dathliadau gyda rhaglen amrywiol ddanteithiol. Bu dau barti canu – chwechawd o wrywod a chôr bach pedwar llais – yn canu detholiad o garolau persain, rai ohonyn nhw yn newydd iawn. Ar yn ail â hynny cyflwynodd aelodau unigol eu dewis o fyfyrdodau, rhai ar ffurf darlleniadau a rhai yn atgofion personol, ac fe gafwyd cwis heriol a difyr ar darddiad carolau. Clymwyd yr holl amrywiaeth at ei gilydd yn barsel difyr a greodd ymdeimlad o gyfeillgarwch ac agosatrwydd ymhlith y rhai oedd yn bresennol. Diolchwyd yn gynnes i Alan Wynne Jones am ei holl waith yn trefnu'r rhaglen ac yn hyfforddi'r cantorion.



Y nos Sul canlynol, Rhagfyr 17eg, arweiniwyd 'Gwasanaeth y Gair a'r Geiriau' yn y Capel gan y gweinidog, y Parch Watcyn James, gyda'r chwechawd a'r côr bach yn canu carolau, gwahanol aelodau yn cyflwyno darlleniadau, band prês bychan dan arweiniad Mr Alan Phillips yn creu naws gerddorol a Kathleen Lewis yn cyfeilio wrth yr organ, - a chyfeillach dros baned a mins peis i ddilyn.

Fore'r Nadolig cynhaliwyd oedfa deuluol yn y Capel dan arweiniad y Bugail, ac ar fore olaf y flwyddyn daeth cynulleidfa Noddfa ac aelodau'r Ofalaeth at ei gilydd i oedfa gymun yn y Garn, eto dan arweiniad y Parch Watcyn James.

Brynhawn Sul, Ionawr 7fed, i gloi tymor y Nadolig, bu Alan Wynne Jones a'i ddau barti canu yn cynnal gwasanaeth yng Nghartref Tregerddan.

**Ysgol Sul Bow Street**
Ar fore Sul 17 Rhagfyr cynhaliwyd oedfa Nadolig plant ysgol Sul Bow Street yn Noddfa, a chafodd y gynulleidfa gyfle i weld y plant yn adrodd stori'r geni, a hynny trwy lygaid y mul bach fu'n cario Mair ar y daith i Fethlehem. Yn goron ar y cyfan, cafodd y plant barti yn y festri yng nghwmni Siôn Corn! Aeth yr un criw i Gartref Tregerddan yn y pnawn i ddiddanu'r preswylwyr. Diolch i bawb fu ynghlwm wrth y paratoi, a diolch i'r plant am eu gwaith caled.





**Clwb Pêl-droed Bow Street**
Dau o swyddogion Clwb Pêl-droed Bow Street, Peter James a Wyn Lewis, yn diolch i Alun Phillips am noddi gêm ddiweddar y clwb yn erbyn y Borth. Bu Alun (ar y dde) yn aelod allweddol o dîm Bow Street yn ystod y 1970au a'r '80au, ac mae'n parhau i'w gefnogi.



Llongyfarchiadau mawr i Tom Evans, un o chwaraewyr Clwb Pêl-droed Bow Street, ar ennill tlws Chwaraewr y Mis, Adran 1, Cynghrair Spar, fis Tachwedd. Wrth gyflwyno'r tlws iddo, dywedodd Wyn Lewis, cadeirydd y clwb, 'Mae hon yn fraint fawr i Tom ac i ni fel clwb – ac yn gamp ryfeddol i chwaraewr ifanc, 17 oed.'



**Newid aelwyd**
Croeso i Ian a Deirdre - dau o Fôn - sydd wedi symud o Benrhyn-coch i Faes Afallen.

**Merched y Wawr Rhydypenau.**
Ar nos Lun rewllyd - Rhagfyr 11eg - aethpwyd i Frynamlwg i fwynhau cinio Nadolig. Ar ôl gwledda cawsom gwis da wedi ei baratoi gan Eirian. 'Roedd y cystadlu yn frwd!!!!!! Yr enillwyr oedd Marian, Mair Lewis a Lila. Enillydd y raffl oedd Brenda. Noson hwyliog iawn.



Ben Lake a Richard Lucas yng nghwmni Cynog Dafis ac Anwen Pierce, dau o swyddogion cangen Rhydypennau, Plaid Cymru.

**Cangen Rhydypennau, Plaid Cymru**

Daeth rhyw hanner cant o bobl i dafarn y Blac, Bow Street, ddechrau Ionawr, i noson gymdeithasol wedi'i threfnu gan y gangen. Yn ystod y noson cyflwynwyd anrheg i Richard Lucas i ddiolch yn fawr iddo am ei waith caled yn ystod etholiadau'r cyngor y llynedd, pryd y bu'n sefyll fel ymgeisydd. Ben Lake AS fu'n cyflwyno, a chafodd Ben ei hun anrheg arbennig gan Richard, sef tei Clwb Pêl-droed Bow Street, gan addo ei wisgo yn un o sesiynau'r Tŷ Cyffredin! Gwnaethpwyd casgliad o £176 yn ystod y noson, i'w rannu rhwng dwy elusen leol, sef Banc Bwyd Aberystwyth a Chartref Tregerddan. Hoffai swyddogion y gangen ddiolch yn fawr i bawb ddaeth i'r noson, a gobeithio y bydd modd trefnu digwyddiad tebyg yn fuan.

**Ymddeoliad**

Erbyn y gwêl y rhifyn hwn o'r Tincer olau dydd bydd Robert Pugh, 3 Maes Ceiro, wedi ymddeol o'i swydd yn Ysbyty Bron-glais wedi blynyddoedd o weithio yn y maes arlwyo. Pob dymuniad da iddo.

**Noson Garolau Neuadd Rhydypennau**

Daeth torf o oedolion a phlant ynghyd yn y neuadd nos Sul 17fed o Ragfyr i fwynhau gwledd o garolau mewn awyrgylch hyfryd yng nghanol goleuadau ac addurniadau Nadoligaidd. Agorwyd y noson gan fand pres galluog a bywiog Ysgol Rhydypennau dan arweiniad Mr Alan Philips. Yna cydiodd Gwennan Williams, arweinydd côr profiadol sy'n hanu o Bow Street, yn y baton i arwain aelodau o gôr ABC yn y gân.

Yna daeth tro côr y pentref, a ffurfiwyd cwta pythefnos ynghynt, i gamu ymlaen, cyn i'r ddau gôr ddod ynghyd i gyd-ganu carolau poblogaidd. Cafodd y gynulleidfa hwyliog ymuno yn y morio canu hefyd. Roedd y pwnsh a'r mins peis yn ddiweddglo twymgalon i ddigwyddiad hudolus a chofiadwy.



**Diolch**

Fe hoffai Dewi a'r teulu ddiolch o galon i bawb am y geiriau caredig a'r galwadau ffôn a'r cardiau lu a dderbyniwyd ar yr achlysur trist o golli Pat mor sydyn ac anisgwyl yn ddiweddar. Diolch enfawr hefyd i Gwyn a Janet am ofalu am drefniadau'r angladd mor urddasol ac i staff Ysbyty Bron-glais a Chartref Tregerddan am eu holl ofal o Pat tra bu'n sâl.

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlir yn ddiffuant â Beti ym Maes Ceiro a David yn y Ruel ar golli Morfydd eu chwaer ym Mhenegoes yn ddiweddar.

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau mawr i Aled Myrddin a'r Côr ym Machynlleth ar eu hymddangosiad ar raglen Cefn Gwlad yn ddiweddar. Bydd noson yn eu cwmni yn Aberystwyth yn Chwefror – gweler y Dyddiadur.

**Capel Noddfa**

Bu'r wythnosau diwethaf yn rhai prysur iawn yn Noddfa rhwng y Nadolig a phopeth. Fe ddechreuodd pethau pan aethom ati i ethol Diaconiaid newydd i gynorthwyo y rhai presennol ac mae'n braf medru adrodd bod Maria Owen, John Hughes, Anwen Pierce, Diana Jones ac Elisabeth Wyn wedi eu hethol. Y mae gennym Drysorydd newydd hefyd wrth i Beryl Bowen gymryd at y swydd ar ymddeoliad Sian Evans, ac yn y cyswllt hwn hoffem ddiolch i Sian am ei gwaith yn ystod y blynyddoedd diwethaf.



Dathlwyd y Nadolig gyda gwasanaeth yng ngofal yr Ysgol Sul Unedig ac yr oedd yn braf gweld cynulleidfa luosog o'r Garn a Noddfa yn cydaddoli ar achlysur mawr iawn yn y calendr Cristnogol. Cynhaliwyd parti'r plant ar derfyn yr oedfa ac fe gafodd pawb gyfle i gyfarfod Siôn Corn. Diolch o galon i bawb am bob help.

Ychydig cyn y Nadolig fe gawsom ychydig o eira tymhorol a hynny ar yr union benwythnos yr oedd Alys Jones a dwy o'i chyd ddisgyblion yn Ysgol Penweddig wedi trefnu sesiwn gwneud cardiau Nadolig ar gyfer plant yr Ysgol Sul. Yr oedd cynnal y sesiwn yn rhan o waith cwrs Alys a'i ffrindiau ym Mhenweddig ac fe'i cynhaliwyd er gwaethaf y tywydd garw er mai ychydig oedd wedi medru bod yn bresennol yn naturiol. y bwriad yn awr yw cynnal sesiwn gyffelyb i'r Ysgol Sul yn agosach at y Pasg.

Ar nodyn diflas cofnodir bod cryn ddifrod wedi ei achosi yn y Festri a'r gegin yn ystod y cyfnod rhwng y Nadolig a'r Calan wedi i fandaliaid ymweld â ni a thorri ffenest a gadael graffiti digon anweddus ar eu hôl. Mae'r heddlu yn ymchwilio i'r mater.




Ymwelodd Gofal Plant Rosebud, Penrhyn-coch â Chartref Tregerddan yn ddiweddar i chwarae a siarad â'r Preswylwyr.



Diwrnod siwmper Nadolig Cylch Meithrin Rhydypennau

# Adolygiadau

Idris Reynolds *Cofio Dic: darn o'r haul draw yn rhywle*. Gomer, 2017. 216t.. £9.99




Mae'r gyfrol hynod ddarllenadwy hon yn ychwanegiad gwerthfawr i'r cyfrolau a gyhoeddwyd eisoes o waith ac o hanes bywyd Dic Jones. Roedd y gyfrol hunangofiannol *Os hoffech wybod...* wedi gwerthu'n dda, ac yn dilyn marwolaeth Dic, aeth ei ddwy ferch ati i ychwanegu at yr hunangofiant gwreiddiol drwy gofnodi hanes yr ugain mlynedd olaf mewn argraffiad newydd. Ymddangosodd cyfrol hefyd yn y gyfres Bro a Bywyd, wedi ei golygu gan Dai Rees Davies. Ac yna yn 2010 a 2011 wele'r ddwy gyfrol o farddoniaeth, *Cerddi Dic yr Hendre* ac *Yr Un Hwyl a'r Un Wylo*, yn ymddangos.

Cyfrol gan gyfaill da iddo, Idris Reynolds, yw'r un newydd hon, ac o ganlyniad ceir pethau ynddi na fyddem wedi eu cael mewn hunangofiant. Yn ogystal ag atgofion a thrafodaeth ddeallus iawn ar lawer o'r cerddi, daw dyfnder gwybodaeth yr awdur am ei fro, y traddodiad barddol Cymreig a hefyd hanes Cymru i'r amlwg drwy'r gyfrol, ac mae hynny'n cyfoethogi'r gwaith yn fawr. Felly nid cyfrol o atgofion cyfaill yn unig yw hi.

Dechreuir drwy olrhain achau teulu Dic, a'r lle amlwg a oedd i gerddoriaeth o fewn y teulu, gydag Abba, ei dad, yn arwain côr Blaen-porth a Dic yn aelod ffyddlon ohono. Yna sonnir am dyfiant a datblygiad Dic a rhai o'r bobl a ddylanwadodd ar y gŵr ifanc, pobl fel Mr a Mrs Tegryn Davies a Bois y Cilie, ac yn arbennig Alun Cilie. Trafodir ei gamp fel cynganeddwr llithrig a gwreiddiol a'i awen barod, a cheir enghreifftiau o'i gynganeddu ebrwydd.

Llwydda Idris Reynolds i osod stori Dic yn ei chyd-destun cymdeithasol. Roedd Dic yn ffigur amlwg yn ei gymdeithas – cymdeithas a gâi ei dylanwadu'n fawr gan y môr a'r tir. Dyma'r gymdeithas y dylanwadwyd arni hefyd gan ddyfodiad yr R.A.E. i Aber-porth. Yn ôl ei reddf, roedd Dic yn heddychwr ac yn edmygydd mawr o Waldo a'i ddaliadau heddychlon. Aros yn ei gymdeithas a mynd adref at ei dad i ffermio Tan-yr-eglwys a wnaeth Dic ar ôl gorffen yn yr ysgol uwchradd, er y gallai'n hawdd fod wedi cael gyrfa academaidd ddisglair.

Nid yw'r awdur yn osgoi trafod yr helynt a achoswyd yn Eisteddfod Genedlaethol Aberteifi, pan ddaeth Dic yn fuddugol gydag awdl 'Y Gwanwyn', ac yntau wedi torri rheolau'r gystadleuaeth. Caiff y ddwy awdl fawr, 'Y Cynhaeaf' a 'Gwanwyn' gryn sylw yn y gyfrol hon, yn benodol yn y bedwaredd bennod, 'Bydd gŵr diorffwys yn torri cwysi'. Dyma a ddywed Idris Reynolds am 'Y Cynhaeaf': 'Canwyd yr awdl gan fardd a oedd yn hen gyfarwydd ag agor grwn, llyfnu, hau, lladd gwair, torri llafur, dyrnu, godro buwch, ac ar ben hynny gan un a oedd yn ei chyfrif yn fraint ac yn bleser i gael gwneud y gwaith.'

Trafodir bywyd teuluol Dic a'i berthynas hapus â Siân ei wraig, ac â'i blant. Cawn wybod am y plant o gwmpas y fferm ac fel roedd y tad wrth ei fodd yn eu cwmni ac o'u gweld yn tyfu a datblygu – 'O fewn fy rhiniog rwyf innau'n frenin'. Delir hefyd ag afiechyd a thristwch o fewn y teulu, er enghraifft yr ing a ddaeth yn sgil marwolaeth Esyllt, y ferch fach. Yn ogystal ag yn ei alarnad i Esyllt mae'r ing yn amlwg hefyd yn y gerdd 'Miserere', a llinell olaf y gerdd honno a ddewiswyd yn deitl i'r gyfrol hon – 'Darn o'r haul draw yn rhywle'.


Ceir penodau pellach sy'n delio â Dic fel y bardd cymdeithasol yn canu i'w bobol, a hefyd Dic y crefftwr, nid yn unig y crefftwr barddol ond hefyd y crefftwr gwledig wrth ei dasgau bob dydd o gwmpas y fferm. Down i wybod am yr elfen gystadleuol gref a'i nodweddai, boed hynny ar y maes chwaraeon neu'r maes eisteddfodol, ac roedd e'n gystadleuydd brwd bob amser. Trafodir ei allu fel llenor yn ogystal ag fel bardd, a dangosir bod y ffin rhwng barddoniaeth a rhyddiaith yn gallu bod yn un denau iawn. Cawn wybod am ei gysylltiadau â chrefydd, a pha mor hyddysg oedd e yn ei Feibl, a hyn i gyd yn cyfoethogi ei arddull a'i eirfa. Ac wrth gwrs, bu'n gyfrannwr cyson i fyd darlledu.

Ar ddiwedd ei yrfa cydnabuwyd ei gyfraniad drwy ei ethol yn Archdderwydd, a chyflawnodd y dasg honno ag urddas. Cyfrol i'w thrysori yw hon, felly, gan un a adnabu Dic Jones a'i fro yn dda iawn. Mae fel petai'n cloi pen y mwdwl ar fywyd a gwaith un o'n beirdd galluocaf a mwyaf poblogaidd.

**John Meurig Edwards**

Adolygiadau oddi ar *www.gwales.com*, trwy ganiatâd Cyngor Llyfrau Cymru

Lois Arnold *E-ffrindiau*. Gwasg Gomer £7.99 192t. Nofel gyfoes iawn yw *E-ffrindiau*.





Mae hi'n dechrau gyda merch yn Awstralia, Ceri, yn hysbysebu am e-ffrind sy'n dysgu Cymraeg i ysgrifennu ati fel ei bod hi'n gallu ymarfer ei Chymraeg. Mae Sara, sy'n byw yn ne Cymru, yn cysylltu â hi. Mae'r nofel yn gyfres o e-byst rhwng y ddwy dros gyfnod o flwyddyn. 'Dyn ni'n dysgu mwy amdanyn nhw, eu teuluoedd, eu bywyd bob dydd, traddodiadau gwahanol y ddwy wlad – Dydd Gŵyl Dewi, Santes Dwynwen (Cymru), Sioe Frenhinol y Pasg, Easter Bilby (Awstralia) yn ogystal â'u dosbarthiadau Cymraeg. 'Dyn ni hefyd yn cael gwybod bod cysylltiad agos iawn rhwng Ceri a Chymru, a dyna pam mae hi eisiau dysgu Cymraeg.

Oherwydd eu bod nhw'n cysylltu trwy e-bost mae rhai tudalennau'n fyr iawn, yn enwedig ar y dechrau, sy'n wych ar gyfer dysgwyr ac mae geirfa ar waelod pob tudalen yn ogystal ag un fwy cynhwysfawr yng nghefn y llyfr. Ro'n i'n hoffi clywed yn fawr am rai o'u tactegau ar gyfer dysgu a chofio geiriau newydd neu ramadeg – mae Sara'n cofio'r gair 'adeiladwr' – the builder 'ad a ladder' ac yn cofio 'dw i ddim yn rhugl eto' – 'Rigoletto'. Mae rhan gyntaf y llyfr yn yr amser presennol ond ar ôl i'r cymeriadau astudio ffurfiau gorffennol a dyfodol y ferf yn eu dosbarthiadau, maen nhw'n defnyddio'r amserau hyn yn eu he-byst.

Mae clawr y llyfr yn dweud ei fod ar gyfer Safon Mynediad, ond dw i'n credu ei fod braidd yn rhy anodd ar gyfer y safon hon. Mae rhai brawddegau anodd yma – er enghraifft, 'beth os dyw'r teulu ddim eisiau clywed oddi wrth blentyn fy nhad' neu 'Dyw hi ddim eisiau parti pen-blwydd mae Emma'n dweud'. Gan nad yw 'bod' wedi cael ei gyflwyno ar y cwrs 'dyn ni'n cael brawddegau fel 'mae'n esgus da i fwyta llawer mae pobl yn dweud' ac 'mae hi'n drist iawn mae hi'n dweud'. Ond wedi dweud hynny, mae'n nofel sy'n symud yn hawdd ac yn gyflym a 'dyn ni'n gweld y ddwy yn dod yn ffrindiau agos yn ystod y flwyddyn. Buasai dysgwyr yn sicr yn mwynhau'r nofel ond buaswn i'n tybio ei bod yn fwy addas ar gyfer Safon Sylfaen.

**Shân Morgan**

Tegwyn Jones *Byd y Morrisiaid: pytiau o'u gohebiaeth*. Gwasg Carreg Gwalch, 2017. 203t., £8.50.




Er mwyn dirnad natur bywyd mewn oes a fu mae sawl ffordd o fynd ati. Gellir troi, wrth gwrs, at lyfrau hanes, ond nid yw hynny at ddant pawb (ac mae ambell lyfr o'r fath, gwae ni, yn 'sych'). Gellir troi hefyd at nofelau hanesyddol, ond nid pob enghraifft o'r *genre* sy'n ddibynadwy (coffa da am un nofel lle mae Owain Glyndŵr a'i deulu'n yfed te mewn picnic sidêt ar lawnt Sycharth!). Gellir tyrchu hefyd mewn dogfennau ac ysgrifeniadau o'r cyfnod, ond, ar y cyfan, heblaw am academyddion wrth eu proffes prin yw'r bobl sy'n meddu'r hamdden a'r ynni i wneud llawer o hynny. Ond efallai mai mewn ffynonellau o'r fath y deuir agosaf at wir naws cyfnodau a fu—lleisiau uniongyrchol yr oes, megis. O ran bywyd Cymru yn y ddeunawfed ganrif cloddfa ddigymar o'r math hwn yw llythyrau'r Morrisiaid, Lewis, Richard, William a John, brodyr galluog iawn o gefndir gwerinol ym Môn.

Fe gadwyd tua mil o'r llythyrau hyn—tipyn o gowlaid i fynd i'r afael â hwy—ac er iddynt gael eu cyhoeddi mae'r cyfrolau lle ceir hwy yn brin (mae dros ganrif er pan gyhoeddwyd y casglad llawnaf ohonynt gan J. H. Davies, Cofrestrydd Coleg Aberystwyth ar y pryd). Gwych o beth felly yw'r gyfrol hon gan un o awduron bro'r *Tincer,* Tegwyn Jones, sy'n cynnull yn ddeheuig bigion o ddyfyniadau o lythyrau pob un o'r brodyr ynghyd â pharagraffau cyflwyniadol byr ond pwrpasol. Ar ddechrau'r gyfrol fe geir adran gryno ar 'Y Cefndir': afraid dweud bod Tegwyn, awdur cyfrolau blaenorol ar Lewis Morris a Siôn Owen, nai i'r brodyr, yn dywysydd tra gwybodus a dibynadwy i'n harwain i fyd lliwgar a diddorol y Morrisiaid.

O blith y brodyr, William, a dreuliodd y rhan fwyaf o'i oes yn Swyddog Tollau yng Nghaergybi, garddwr brwdfrydig a chanddo ddiddordeb ysol a deallus mewn llysieueg, oedd y llythyrwr mwyaf cynhyrchiol: fe gadwyd cynifer â 400 o'i rai ef. Fe dreuliodd Lewis, mapiwr, tirfesurydd, hynafiaethydd a bardd (ac ychwaneger 'ac ati') ran dda o'i oes ym mro'r *Tincer* yng Nghwmsymlog a Gallt Fadog, ac fe'i claddwyd yn Eglwys Llanbadarn. Fel Dirprwy Stiward maenorydd y Goron yng Ngheredigion, daeth ei oruchwyliaeth o weithfeydd plwm y sir ag ef i wrthdrawiad â boneddigion lleol. Onglog a phigog oedd Lewis o ran ei bersonoliaeth—gŵr a labyddiodd y meddwyn Goronwy Owen yn ddidrugaredd â'i eiriau ac a ddyfarnodd mai 'Rhywogaeth estronol' oedd trigolion de Cymru—ond ef oedd y galluocaf a'r mwyaf amryddawn o'r brodyr. Ar ôl gadael Môn yn 1722 yn Llundain y treuliodd Richard ei oes, heb ddychwelyd i Gymru ond unwaith (i gyrchu llawysgrifau Lewis ar ôl ei farw). Oherwydd ei ddyletswyddau trymion mewn uchel swydd glerigol yn Swyddfa'r Llynges prin oedd llythyrau Richard, ond yr oedd yr ieithgarwr pybyr hwn yn ffigur diwylliannol pwysig: ef oedd prif sylfaenydd Cymdeithas y Cymmrodorion, ac fe olygodd argraffiadau newydd o'r Beibl a'r Llyfr Gweddi. Dengys y llythyrau prin o waith John, y brawd ieuengaf, ei fod yntau'n alluog, ond bu farw'n 27 oed yn 1740 ar long ryfel yn Dominica yn y Caribî.

Mae danteithion lawer ym mhigion y gyfrol, sy'n ffenestr dryloyw i fywyd oes a oedd yn wahanol iawn i'n hoes ni. Bregus efallai yw bywyd ym mhob oes, ond cyflea'r gyfrol yn bendant iawn gymaint yn fwy bregus oedd bywyd yn y ddeunawfed ganrif. Ceir nifer o gyfeiriadau yn llythyrau'r brodyr at farwolaethau gwragedd a phlant: datgela Tegwyn y ffaith syfrdanol i Richard a'i dair gwraig rhyngddynt gladdu 'rhyw 15 o blant i gyd'. Os ceir cwynion heddiw am ddiffyg adnoddau'r Gwasanaeth Iechyd, dychmyger sut le oedd Môn yn y ddeunawfed ganrif, 'not having a surgeon in the whole island' yn ôl William yn 1746. Hoff iawn oedd y brodyr o sôn am eu mynych anhwylderau, yn enwedig y peswch, y ceir adran gyfan yn ymwneud â'r pwnc yn y gyfrol. Dyma'r 'hen elyn sy'n rhyfela yn erbyn ein teulu ni' neu 'the family distemper' chwedl Lewis geintachus, a ddyfernir gan Tegwyn yn 'brif besychwr y teulu'!

O ran eu crefydd, eglwyswyr cadarn oedd y brodyr mewn oes pan oedd crefydda o fath gwahanol ar gynnydd. O glywed Charles Wesley yn pregethu o flaen tafarn yng Nghaergybi dyfarnodd William 'Naill yr oedd wedi ynfydu neu yn tybio fod eraill felly', tra cwynodd Richard fod 'llawer o drueiniaid wedi gwallgofi' yn Llundain oherwydd pregethu George Whitefield.

Mae llawer o lythyrau'r brodyr yn cydblethu'r Gymraeg a'r Saesneg (weithiau'n ddigrif iawn), ond er hynny mae rhywiogrwydd cyffredinol Cymraeg y brodyr yn adlewyrchu unieithedd trwch poblogaeth Môn yn yr oes honno. Amlygir hyn yn y casgliad difyr iawn—'Diarhebion, Dywediadau ac Ebychiadau' o'r llythyrau—a gynullodd Tegwyn ar ddiwedd y gyfrol. Os hoffech wybod beth a olygai Lewis pan ddywedodd na wyddai Goronwy Owen 'pa fodd i rannu rhwng y bol a'r cefn', a llu o ymadroddion ffraeth eraill (nid parchus bob amser), dyma'r lle i droi ato.

Mewn pwl o ddigalondid ar ddiwedd ei oes gresynai Lewis 'Deugain mlynedd i heddiw ni bydd hanes am un ohonom.' Ond mae ef a'i frodyr yn dal i fyw yn fuddugoliaethus yn eu llythyrau ddwy ganrif a hanner wedyn. Rhaid llongyfarch Tegwyn ar gynnull yn fedrus o'u plith gyfrol y ceir ynddi oriau o ddifyrrwch o'i darllen.

**Gruffydd Aled Williams**

**Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch**

**CINIO DYDD SUL**
**PRYDAU BAR**
**PARTÏON**
**BWYDLEN BWYTY**
**ADLONIANT**

AR AGOR O 5:30 P.M.
NOSWEITHIAU IAU A GWENER
AM BRYDIAU TEULUOL

**GWASANAETH GARDDIO ROBERT GRIFFITHS**
Am bob math o waith garddio ffoniwch
(01970) 820924



newyddion etc. i / news etc. to:
golygydd@trefeurig.org
William Howells,
Rhyd-y-gof, Penrhyn-coch,
Aberystwyth SY23 3EQ

**SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH**
**Perchennog: Lawrence Kelly**
**AR AGOR**
**Llun – Sadwrn**
**7 y bore – 9 yr hwyr**
**Sul**
**7 y bore – 7 yr hwyr**
**Papurau dyddiol a'r Sul, llyfrgell fideo, cardiau cyfarch**
**siop drwyddiedig**
**01970 828312**

**MYNACH GARDEN MAINTENANCE**
**Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio**
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
**Ffoniwch Meirion:**
07792 457816
01974 261758
e-bost: mynachhandyman@yahoo.com

## MADOG, DEWI, CEFN-LLWYD

**Suliau Madog**
2.00
*Ionawr*
21 Bugail
28 10.00 Oedfa'r ofalaeth yn y Garn Bugail

*Chwefror*
4
11 Y Parchg Roger Ellis Humphreys
18 Bugail
25

**Tad-cu**
Llongyfarchiadau i Gareth Hughes Jones, Cefn-llwyd, ar ddod yn dad-cu; ganwyd merch fach – Lois Gwenllian – i Sara a Sion yn Bow Street.

## GOGINAN

**Calennig**
Braf oedd gweld Hedd, Gwenno a Iestyn yn cadw'r traddodiad o ganu Calennig yn y pentre.

**Pen blwydd Arbennig**
Pen blwydd hapus i Morfudd Ingram, Llygad Y Glyn ar ddathlu pen blwydd arbennig ar noswyl y Nadolig.

**Gwella**
Cafodd Denny Prior, Llwyncerdin, driniaeth ym Mron-glais ychydig cyn y Nadolig ac mae yn gwella yn dda. Mae yn ddiolchgar iawn i bawb fu yn gofalu amdano yn yr ysbyty yn ystod ei adeg yno. Nid yw yn medru canmol gormod.

Un arall cafodd driniaeth cyn y Nadolig oedd Amber Humphreys, Blaendyffryn, a braf yw nodi ei bod hi hefyd yn gwella o'i llawdriniaeth.

Braf yw nodi fod Elen ac Arthur Williams, Penrhiwlas, adref erbyn hyn ar ôl i'r ddau gael gwahanol driniaethau yn ddiweddar,

**Parseli Nadolig**
Diolch yn fawr i Iris Richards, Cefnllan, Brodawel a Mair Jones, Coedlan am unwaith eto drefnu'r Parseli Nadolig i'r henoed yng Ngoginan, hefyd diolch i Gareth Jones, Coedlan a Carol Jones, Cefnbangor am wneud yn sicr eu bod yn cyrraedd pen y daith.

# Datgelu dwsin disglair Band Cymru 2018

Mae S4C wedi datgelu'r 12 band chwyth, pres a jazz fydd yn cystadlu am deitl Band Cymru 2018 S4C a'r cyfle i ennill £10,000. Ac mae pedwar band dan 18 oed yn dathlu ar ôl sicrhau eu lle yn rownd derfynol Band Ieuenctid Cymru 2018 S4C a'r cyfle i ennill £1,000.

Cynhelir rowndiau terfynol y ddwy gystadleuaeth yn Neuadd Fawr, Prifysgol Abertawe ar 21 a 22 Ebrill a byddant yn cael eu darlledu ar S4C. Ond cyn hynny, bydd bandiau o bedwar ban y wlad yn teithio i Ganolfan y Celfyddydau yn Aberystwyth ar ddyddiau Sadwrn a Sul, 17 a 18 Chwefror i frwydro am le yn y rownd derfynol.

Y deuddeg band sydd drwodd i'r rowndiau cynderfynol yw Band Tref Porth Tywyn (Burry Port), Band Pres Dinas Caerdydd (Melin Griffith), Band Arian Llaneurgain, Brass Beaumaris, Band Tylorstown, Band BTM, Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, Band y Cory, Band 'Temperance' Tongwynlais, 3D Brass, Cymdeithas Jazz Prifysgol Caerdydd a Band Mawr Coleg Brenhinol Cymru.

A dyma'r pedwar band yn ffeinal Band Ieuenctid Cymru: Band Jazz Tryfan, Cerddorfa Jazz Gwasanaeth Cerdd Caerdydd a'r Fro, Band Mawr Ieuenctid Torfaen a Band Pres Ieuenctid Gwent.

Ffilmir y rowndiau cynderfynol gan y cwmni cynhyrchu a'r trefnwyr Rondo Media i'w darlledu ar S4C fisoedd Mawrth ac Ebrill. Meddai Elen Rhys, Comisiynydd Cynnwys Adloniant S4C, "Rydym yn falch bod amrywiaeth mor eang o fandiau o bob rhan o Gymru yn cystadlu am le yn y rownd derfynol. Dyma'r trydydd tro inni gynnal y gystadleuaeth ac mae'n mynd o nerth i nerth. Pob lwc i'r holl gystadleuwyr."

Fe gafodd yr holl fandiau eu dewis gan banel o feirniaid rhyngwladol o dan oruchwyliaeth cwmni cynhyrchu Rondo Media.

Meddai Cynhyrchydd y gyfres, Gwawr Owen, "Fel cynhyrchwyr y gystadleuaeth ni wrth ein boddau bod cymaint o fandiau wedi cystadlu a chyrraedd safon mor uchel. Dyma'r unig gystadleuaeth lle mae bandiau pres, chwyth a jazz yn cystadlu yn erbyn eu gilydd ac mae'r amrywiaeth o fandiau sydd wedi eu dewis i fynd ymlaen i'r rowndiau cyn derfynol yn argoeli am benwythnos wych yn Aberystwyth ym mis Chwefror ac yn ddiweddarach ar S4C."

Dyma amseroedd a dyddiadau'r pedair rownd gynderfynol yng Nghanolfan y Celfyddydau, Aberystwyth: Dydd Sadwrn 17 Chwefror, 2.30pm, Nos Sadwrn 17 Chwefror, 8.00pm; Dydd Sul 18 Chwefror, 2.30pm, Nos Sul 18 Chwefror, 8.00pm.

Mae tocynnau am ddim ar gael ers bore Llun 15 Ionawr 2018. Ffoniwch 029 2022 3456 neu e-bostio bandcymru@rondomedia.co.uk

## DOL-Y-BONT

**Gwella**
Da yw gweld Sian Cory, Bryngwyn, o gwmpas eto ar ôl treulio dipyn o amser yn Ysbyty Bron-glais cyn y Nadolig. Dal ati Sian!

**Geni wyrion**
Llongyfarchiadau i Sŵ Gerallt ar enedigaeth ŵyr bach ddiwrnod cyn y Nadolig. Mab i Rhys a Claire a'i enw yw Osian.

Llongyfarchiadau mawr hefyd i Sian a John Cory, Bryngwyn, ar enedigaeth eu hŵyr bach cyntaf. Ganwyd Tomos Rhys i Nia a Mathew ar y 3ydd o Ionawr,

**Cydymdeimlad**
Anfonwn ein cydymdeimlad i Gwesyn, Gerallt a'r teulu, Pantydwn, ar farwolaeth eu chwaer Morfudd o Benegoes.

**Cofion**
Rydym yn cofio hefyd am Judith Watson, New House. Ychydig cyn y Nadolig fe gafodd ŵyr bach newydd ac yna yn nyddiau Nadolig mi gollodd Judith ei brawd yn eithaf sydyn yn Stoke.

# CLARACH




**Beiciwr ifanc**
Llongyfarchiadau i Griff Lewis, Broncynfelin, ar gael ei ddewis i seiclo yn nhîm bechgyn iau Cymru.

**Coffad Cyril Jones, Rhoscellan Fawr**
Ddydd Calan, yng Nghartref Gofal Plas Cwmcynfelin bu farw Cyril Jones, Cwmheulog, Clarach. Claddwyd ei weddillion yn Eglwys Llangorwen ar Ionawr 6ed. Dyma ran o'r deyrnged dalwyd iddo gan ei gyfyrder, Martyn Griffiths, Ffos-y-grafel.

Ganwyd Cyril yn Rhoscellan Fawr ar Fai'r 4ydd, 1933 yn bumed plentyn i Sal a William Jones, ac yn frawd i Stanley, Marian, Megan, a Gwilym ac yn ddiweddarach Beryl ac Alun. Mynychodd Ysgol Gynradd Aberystwyth ac Ysgol Ramadeg Ardwyn. Wedyn dychwelodd i Roscellan i ffermio gyda'i deulu.

Ffermio oedd ei fywyd a gwartheg godro yn benodol. Ar y dechrau buwch ddu Gymreig 'Castle Martin' oedd dewis y teulu - buwch fwy *fine* ei hasgwrn ac yn godro ychydig yn fwy na gwartheg duon yr ardal hon. Dros y blynyddoedd, fodd bynnag, newidiwyd i Friesians ac yna i Holsteins, a chreu buches Rhoscellan. Aeth enw da'r fuches pedigri honno ymhell tu hwnt i'r ardal leol gydag anerod a buchod yn gwerthu am brisiau sylweddol mewn aml i gylch arwerthu. Yn ystod blwyddyn a dreuliais i allan o'r coleg yn gweithio yng Nghaerfyrddin ganol yr '80au dysgais hyd a lled yr enw da hwnnw drwy'r nifer fawr o bobl oedd yn gwybod am ac yn canmol stoc buches Rhoscellan. Dim ond drwy waith caled y gellir ennill enw da o'r fath.

Fel ffermwyr roedd Cyril a'r teulu yn arloeswyr - y cyntaf yn yr ardal i gael ffôn, i gael *elevator* i godi porfa i'r trêlyr yn y cae i'w gario adref i wneud silwair, a chyda'r cyntaf i wneud silwair bêl mawr. Cyril oedd yn gwneud y gwaith papur; roedden nhw'n defnyddio'r Gwasanaeth Busnes i Ffermydd i feincnodi ymhell cyn i hynny ddod yn ffasiwn.

Roedd teulu yn bwysig iawn iddo a bu'r ffordd y bu e a Megan a Gwilym ac Alun yn byw a gweithio gyda'i gilydd yn wers i ni i gyd. Bu afiechyd a phoen a llawdriniaethau mawr yn rhan o'i fywyd oddi ar ei bumdegau, ond brwydrodd ymlaen yn ddygn. Bydd cof llawer ohonom amdano yn cynnwys dwy ffon neu ffyn baglau wrth iddo fynd ar hyd yr iard yn bwydo lloi neu'n tendio tractor.

Ar ôl colli ei frodyr a'i chwiorydd gyda threigl amser daeth penderfyniadau anodd i'w wynebu, yn gyntaf gwerthu'r fuches odro ac yna, ar ôl colli Gwilym yn 2009, cael sêl ffarm a symud gyda Queen y ci i fyw yn Cwm Heulog, Llangorwen. Roedd yn benderfynol o beidio bod yn faich ar neb a mawr oedd ei werthfawrogiad o'r gefnogaeth a gafodd gan ei nai a'i ddwy nith, Elfed, Lilian a Sheila, Ceri, ei ofalydd, a staff Plas Cwmcynfelin.

Heddiw, wrth i ni roi Cyril i orffwys gyda gweddill y teulu, gwyddom y bydd ei ddylanwad ef, a dylanwad holl deulu Rhoscellan Fawr, yn aros gyda ni drwy'n hoes.

## *Llythyr*

Annwyl Olygydd,
Ysgrifennaf ar ran tîm cynhyrchu y gyfres 'Garddio a mwy' ar S4C, fydd yn dychwelyd i'r sgrîn yn y gwanwyn am gyfres arall.

Unwaith eto, bydd ein cyflwynwyr - y garddwyr brwd Iwan a Sioned Edwards a Meinir Gwilym - yn ymadael â'u gerddi eu hunain yn achlysurol i gynnig help llaw i arddwyr eraill ar hyd a lled Cymru. Nid trawsnewid gerddi yw'r bwriad, ond yn hytrach ddod a bywyd newydd iddi trwy ganolbwyntio ar ran ohoni a welai fudd diwrnod caled o dorchi llewys.

Felly, pa bynnag agwedd o'r ardd sydd angen sylw, anogwn eich darllenwyr i ddod i gysylltiad â ni. Yn ddelfrydol, dylid anfon cyfres o luniau a disgrifiad byr o'r joban dan sylw, neu o ddyheadau'r perchennog (fydd wrth gwrs yn cymeryd rhan yn yr eitem!).

Yn ogystal a gerddi preifat, rydym hefyd yn agored iawn i glywed am brosiectau garddio cymunedol neu grŵpiau lleol, eto a hoffai fewnbwn gan y tîm.

Am ragor o wybodaeth, neu i gynnig syniad am eitem, dylid ebostio garddioamwy@cwmnida.tv, ffonio 01286 685 300 (a gofyn am Euros neu Meinir) neu adael neges ar ein tudalen facebook (facebook.com/garddioamwy).

Cofion cynnes,
Tîm Garddio a mwy

SIOP
SGIDIAU GWDIHW
**Shan Jones**
8 Ffordd Portland,
Aberystwyth
SY23 2NL
01970 617092

GWASANAETH
GOFAL TRAED
Ceiropodydd /podiatrydd graddedig
ac wedi cofrestru efo'r
H.C.P.C., S.R.Ch., M.Ch.S., B.S.C.Pod, Dip.Pod.Med.

# LLANDRE

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Nans Morgan, Dolgwiail, ar farwolaeth cyfnither ym Mlaen-plwyf.

**Gwobrwyo**
Ar y cyntaf o Ragfyr, cynhaliwyd noson wobrwyo yng Ngholeg Peirianneg Prifysgol Abertawe. Fe gyflwynwyd gwobrau ymhob adran o'r coleg, o beirianneg awyrofod i beirianneg cemegol, ar sail myfyrwyr oedd wedi dangos ymrwymiad a gallu academaidd rhagorol yn eu hastudiaethau.

Bu Iestyn Evans, Fronddel, yn llwyddiannus dros ben ar y noson. Derbyniodd wobr ar gyfer y myfyriwr ail-flwyddyn gorau yn yr adran peirianneg mecanyddol, ond yn well fyth derbyniodd hefyd y wobr ar gyfer y myfyriwr ail-flwyddyn gorau yn yr holl goleg, ar draws yr holl ganghennau o beirianneg. Serenodd gyda gradd gyfartalog o 93% yn ei arholiadau ac asesiadau yn ystod ei ail flwyddyn, a achosodd i bawb a oedd yn y gynulleidfa ar y noson i gymeradwyo'n frwdfrydig ar gyhoeddiad ei lwyddiant.

Ar hyn o bryd, mae Iestyn yn ei drydedd flwyddyn ac yn canolbwyntio ar ei draethawd terfynol, lle mae'n gweithio ar ddatblygiad dull o gynhyrchu ynni o donnau'r môr. Mae Iestyn ar y llwybr i raddio yn yr Haf gyda gradd dosbarth cyntaf ym mheirianneg mecanyddol, ac yn bwriadu dychwelyd i'r brifysgol ar ôl graddio i gychwyn ar astudiaethau pellach ac i weithio tuag at radd Phd.

Hoffwn ei longyfarch ar ei lwyddiannau ac i ddymuno pob lwc iddo yn ei astudiaethau a'i waith sydd i ddod.



Iestyn a'i deulu ar noson wobrwyo coleg peirianneg Prifysgol Abertawe.

**Calan (Y Fari Lwyd, Llandre, Ionawr 2017)**

Glaw a hanner, glaw lyno - amdanom
yn dynnach nag amdo;
a glaw fel hen fraw drwy'r fro,
yn sŵn calan, sy'n cilio.
Geraint Williams

**Genedigaeth**
Yn dilyn geni merch fach – Lois Gwenllian – i Siôn a Sara, yn Bow Street llongyfarchiadau i Mair England, Pant-y-glyn, ar gael wyres, a Mr a Mrs Glyn Williams, Llandre ar gael gor-wyres.

**Tywysydd Parêd 2018**
Awdur a newyddiadurwr, academydd a chyhoeddwr yw Tywysydd Parêd Gwyl Dewi Aberystwyth a gynhelir dydd Sadwrn 3 Mawrth 2018. Mae Ned Thomas - fu'n byw gyda'i deulu yn Llys Berw, Llandre, yn y 1980au yn adnabyddus i bobl y dre a Chymru tu hwnt am ei ymdrechion dros yr iaith Gymraeg ac hyrwyddo y Cymry i ddysgu gan wledydd tramor a phobl tramor ddysgu am Gymru.

Rhoddir braint 'Tywysydd' ym mhob gorymdaith Gwyl Dewi ers ei sefydlu yn 2013 a bydd y Tywysydd yn arwain y Parêd drwy dref Aberystwyth. Mae'n arwydd o ddiolch a gwerthfawrogiad cymuned Aberystwyth i berson neu bersonau lleol sydd wedi gwneud cyfraniad pwysig i iaith a diwylliant Cymru.

Ganed Ned yn Lloegr i rieni Cymraeg ac fe addysgwyd yng Nghymru, Lloegr a'r Almaen lle roedd ei dad yn farnwr yn y llysoedd dedfrydu Natsïaid wedi'r Ail Ryfel Byd. Nes ymlaen bu'n Athro Llenyddiaeth Saesneg ym Mhrifysgol Salamanca yn Sbaen yng nghyfnod Franco ac yn Athro cyfnewid ym Mhrifysgol Moscow yn y cyfnod Sofietaidd. Dychwelodd i Gymru i ddarlithio yn Adran Saesneg Prifysgol Aberystwyth. Pryd hynny sefydlodd y cylchgrawn *Planet* a'i olygu am bymtheng mlynedd,a nes ymlaen bu'n Gyfarwyddwr Gwasg Prifysgol Cymru yng Nghaerdydd.

Yn Sbaen yr oedd eisoes wedi dod i nabod rhai o arweinwyr y mudiadau cenedlaethol a'r mudiadau iaith yng Ngwlad y Basg a Catalwnia. Bu'n weithgar ym maes lleiafrifoedd ieithyddol Ewrop am chwarter canrif a fe sefydlodd Canolfan Mercator ym Mhrifysgol Aberystwyth y mae'n dal yn Lywydd arni. Mae'r ganolfan wedi magu perthynas agos â siaradwyr ieithoedd eraill Ewrop sydd, fel y Gymraeg, yn ymladd am hawliau. Cyhoeddodd astudiaethau o waith George Orwell a Derek Walcott yn Saesneg, ac o Waldo Williams yn Gymraeg. Roedd ei gyfrol 'The Welsh Extremist: a Culture in Crisis' yn ddylanwadol yng nghyfnod ymgyrchoedd dros yr iaith Gymraeg yn saithdegau ac wythdegau'r ganrif ddiwethaf a'i gyfrol 'Bydoedd – Cofiant Cyfnod' oedd Llyfr y Flwyddyn yn Gymraeg yn 2011.


Mae wrthi'n paratoi cyfrol am y syniad o leiafrif ieithyddol yn hanes diweddar Ewrop.

Meddai Siôn Jobbins, Cadeirydd y Parêd, "Rydym yn hynod falch i Ned Thomas dderbyn ein cais i fod yn Dywysydd eleni. Mae Nedwedi bod yn ddylanwad fawr wrth agor ffenest Cymru i genhedloedd tebyg i ni fel yCatalwnwyr a'r Basgwyr sy'n gorfod ymladd am ei hawliau ieithyddol ac hawliaucenedlaethol. Mae hefyd wedi esbonio a denu llawer o bobl ddylanwadol yma i Gymru. Mae wedi arwain trwy esiampl wrth greu Cymreictod ryngwladol sy'n barod i ddysgu gwersi da gan genhedloedd eraill. Bu'n gyfrifol drwy Mercator am ddod â nifer o bobl tramor i Aberystwyth lle ddysgodd llawer ohonynt Gymraeg a, gan hynny, cryfhau y diwylliant Gymraeg yn y dre a chadarnhau Aber fel tref dysg ryngwladol a Chymreig,"

Meddai Ned Thomas:

"Braint a phleser fydd cael arwain y parêd, a hynny mewn cyfnod panmae gan Aberystwyth a'r cylch cymaint i fod yn falch ohono. Yr hyn sydd gen i dan sylw yw ei chroeso arbennig ar adeg gythryblus i ffoaduriaid ac yn wir i bawb o bell sydd wedi ymgartrefu yma ac yn cyfrannu i'n cymdeithas. Ydy, mae diwylliant a chymeriad bro a chenedl yn etifeddiaeth werthfawr ond mae'n hetifeddiaeth a adnewyddir bob dydd gan ein gweithredoedd yn y presennol. Gaf fi annog chi i wahodd eich cyfeillion a'ch cydnabod, o ba bynnag cefndir ieithyddol a diwylliannol, i ymuno â'r orymdaith a'r gweithgareddau ar Fawrth 3ydd, fel ein bod ni'n symud ymlaen fel cenedl gyda'n gilydd."

Mae Casi - Jones erbyn hyn- yn swyddog cynnal ac adnoddau Gogledd Cymru gyda Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac yn byw yn Arfon lle mae ei gŵr Lloyd yn ficer Clynnog. Mae ganddynt ddau fab Dafydd Mackenzie a Tomos Llwyd. Mae Dani ei brawd yn byw ym Mhontypridd gyda'i bartner Helen. Dani'n gweithio yng Nghaerdydd gyda chwmni confused.com. Mae ganddynt dri o blant - Lewys, Hefin a Gwenllian.



Ned Thomas, Tywysydd Parêd 2018

# Cyngor Cymuned Trefeurig


Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, 14 Tachwedd, yn Neuadd Penrhyn-coch gyda'r Cadeirydd, Richard Owen, yn y gadair, a'r cynghorwyr Edwina Davies, Iona Davies, Shân James, Tegwyn Lewis, Dai Mason, Gwenan Price ac Eirian Reynolds yn bresennol ynghyd â'r Clerc. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Mel Evans, Delyth James a Kevin Jenkins.


Croesawyd Iona Davies i'r Cyngor am y tro cyntaf.

Materion yn codi: **Maes Seilo** - dywedodd Dai Mason ei fod wedi cyfarfod gyda Russell Hughes- Pickering o'r Cyngor Sir, ac roeddent am drefnu i gyfarfod ar y safle ddechrau'r flwyddyn er mwyn trafod y posibilrwydd o glirio'r safle fel y gallai fod yn faes parcio. **Gogerddan** - roedd Dai Mason yn gallu cadarnhau y byddai'r cynllun i ledu'r ffordd ger groeslon Gogerddan yn mynd yn ei flaen. Roedd y Brifysgol wedi cytuno i drosglwyddo'r tir ar gyfer y cynllun. Croesawyd y newydd hwn. **Sul y Cofio** - roedd gwasanaeth Sul y Cofio wedi ei gynnal yn llwyddiannus. Diolchodd Edwina Davies i Dai Mason am drefnu fod rhan o'r gofeb yn cael ei thrin ymlaen llaw, a diolchwyd i Gwenan Price am baratoi'r dorch wen eleni eto. Roedd hi'n bwrw glaw yn drwm iawn ychydig cyn y gwasanaeth, ond fe wellodd y tywydd mewn pryd i gynnal y seremoni wrth y gofeb. Pe ceid tywydd mawr ar adeg y gwasanaeth yn y dyfodol, penderfynwyd y dylid cynnal y gwasanaeth yn Neuadd yr Eglwys.

Materion eraill: **Parcio** - dywedodd Dai Mason y byddai'n mynychu cyfarfod ar 21 Tachwedd gyda'r Cyngor Sir i drafod cyfyngiadau cyflymder a phroblemau parcio ym Mhenrhyn-coch. Byddai'n trafod y posibilrwydd o gael llinellau melyn wrth y mynediad i Dan-y-berth, ynghyd â'r posibilrwydd o ymestyn y palmant o'r Clwb Pêl-droed hyd at sgwâr y pentref. **Penyberth** - roedd un o drigolion rhes dai Penyberth wedi holi'r Cynghorydd Sir am arwydd i ddynodi'r rhes, gan ei fod yn cael trafferth gyda'i bost. Penderfynwyd cynghori'r person i gysylltu'n uniongyrchol gyda'r Swyddfa Bost. **Dŵr ar y ffyrdd** - fe wnaeth Eirian Reynolds dynnu sylw'r Cyngor at y ffaith fod dŵr yn crynhoi'n ddifrifol ar y ffyrdd mewn sawl man pan geid glaw trwm, megis rhwng groeslon Gogerddan a phont y Royal Oak ac ar y ffordd ym Mancydarren, a hefyd yn y caban bysys ger y Swyddfa Bost. Penderfynwyd cysylltu â'r Cyngor Sir. **Torri cloddiau** - tynnodd y Cadeirydd sylw at y ffaith fod cloddiau yn cael eu torri a'r toriadau yn cael eu gadael ar ochr y ffordd neu ar balmentydd, fel yn achos y palmant gyferbyn â Phant-teg. Penderfynwyd holi cyfrifoldeb pwy oedd clirio'r toriadau hyn, gan eu bod yn drafferthus iawn i bobl oedd yn defnyddio'r palmentydd.

**Tu allan i ysgol ym Mro Morgannwg**




CROCHENDY YNYS-LAS

Croeso i ffrindiau a grwpiau, a dewis di-ben-draw o ddarnau o bob lliw a llun i'w paentio.
Ar agor drwy'r flwyddyn
Archebwch le drwy ffonio:
07402 335638
www.blueislandceramics.co.uk

# Gwasanaeth Nadolig Ysgol Penweddig 2017

Cynhaliwyd gwasanaeth Nadolig Ysgol Penweddig eleni yng Nghapel Bethel, Aberystwyth, sydd yn un o uchafbwyntiau calendr blynyddol yr Ysgol gyda nifer helaeth o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn amryw o eitemau. Prif thema'r gwasanaeth eleni oedd 'Y Teulu' ac fe'm harweinwyd ar y thema hwn gan brif ddisgyblion yr Ysgol yn egluro pwysigrwydd teulu dynoliaeth. Yn ogystal, fe'm hannerchwyd gan Cynan Llwyd, cyn ddisgybl yr Ysgol sydd hefyd yn swyddog i Gymorth Cristnogol ar ein digonedd ni adeg y Nadolig o'i gymharu â thlodi eraill yn y byd. I gloi'r gwasanaeth, traddodwyd y fendith gan Y Parchedig Andrew Lenny. Diolch i'r holl ddisgyblion, staff ac aelodau'r cyhoedd a gyfranodd at y gwasanaeth. Eleni, byddwn yn rhoi tuag at Gymorth Gristnogol ac i Prosiect13 – elusen sy'n gymorth i bobl ifanc sy'n galaru.



## Ysgol Pen-llwyn

**Sustrans**
Cafodd gweithdy ei gynnal cyn diwedd y tymor i helpu'r plant i addurno eu beics. Fel y gwelwch o'r llun cawsant hwyl arni ac edrychai'r beics am y gorau ar gyfer y Nadolig.

**Rhoddion gan Siop y pentref**
Diolch yn fawr i Dan a Mel am eu rhoddion hael i holl blant yr ysgol ar ddiwedd y tymor.

**Ymweliad Siôn Corn**
Pwy ddaeth heibio ar ei daith brysur o Begwn y Gogledd ond Siôn Corn ! Doedd e ddim am anghofio am blant Ysgol Pen-llwyn ac roedd ganddo anrheg hyfryd i bob un o'r plant. Felly diolch yn fawr , Siôn Corn , fe gewch ddod eto !

**Siop Siarad**
Bu tipyn o gyffro pan agorwyd ein Siop Siarad ar ddechrau mis Rhagfyr. Fel y gwelwch mae nifer o nwyddau diddorol ar werth ble gall y plant wario eu tocynnau Draig am siarad Cymraeg tu allan i'r dosbarth. Pwy fydd y cyntaf i gynilo tocynnau i brynu'r ddraig fawr tybed ? Neu, pwy all ennill digon o docynnau i brynu'r penwisg cennin Pedr erbyn Mawrth y 1af ? Mae'r siop ar agor bob dydd Mercher.

**Cinio Nadolig**
Cafwyd cinio Nadolig gwerth chweil eleni eto ar wythnos ola'r tymor a phawb wedi bwyta llond ei fol. Diolch yn fawr i staff y gegin am ginio ardderchog.

**Ymweliad Elen Howells**
Diddorol iawn oedd cael clywed am ei gwaith dyddiol yn labordy'r ysbyty. Cafodd y plant weld sioe sleidiau Pwerbwynt oedd yn dangos beth sy'n cael ei wneud gyda samplau gwaed a sut mae'r drefn yn gweithio. Diolch yn fawr am ddod atom - roedd y plant wedi dysgu llawer.










# Pontio dan ei sang ar gyfer premiere drama newydd Craith

Llond theatr o bobl yng nghanolfan Pontio, Bangor oedd y cyntaf i brofi blas ar ddrama drosedd newydd S4C, Craith mewn dangosiad arbennig yng nghwmni rhai o sêr y gyfres. Mae'r ddrama wyth rhan, ddechreuodd ar S4C nos Sul 7 Ionawr am 9.00, yn adrodd hanes y ditectif DI Cadi John (Siân Reese-Williams) sy'n dychwelyd i Ogledd Cymru i ofalu am ei thad gwael ei iechyd. Fodd bynnag, pan yw corff merch ifanc yn cael ei ddarganfod mewn afon leol, daw'n amlwg bod creithiau'n llechu y tu ôl i olygfeydd godidog Eryri a'r ardal o'i hamgylch. Mae byd Cadi - a'r byd o'i chwmpas - yn cael ei newid am byth.



Mae nifer o'r rhai sydd ynghlwm â'r gyfres â chysylltiad ag ardal y Tincer – yn y cast mae Rhodri Meilir (Byw Celwydd, Pride) – mae ei fam, Menna, yn ferch Gellinebwen, Madog, Gwyneth Keyworth (Game of Thrones, Wasted, Bang) - y Lôn Groes, Bow Street ac ymysg awduron y gyfres mae'r nofelydd Caryl Lewis, Goginan, sy'n enillydd amryw wobr lenyddol. Mae is-deitlau Cymraeg a Saesneg i'r gyfres ( isdeitlau Saesneg ar y sgrin ar ddarllediadau nos Wener. Mae ar gael hefyd ar alw ar s4c.cymru, BBC iPlayer a llwyfannau eraill.

## Ysgol Craig yr Wylfa

**Y Bws Cerdded**
Dechrau mis Rhagfyr, dechreuodd yr ysgol wneud "Y Bws Cerdded", sydd bellach yn digwydd pob bore dydd Gwener. Mae athrawon a rhieni sy'n gwirfoddoli yn dechrau'r daith o'r orsaf drên am 8.30yb ac yn cerdded i'r ysgol, ac mae plant yn medru ymuno â'r bws ar ein taith. Mae'r "Bws Cerdded" yn ffordd o hybu pobl i gerdded i'r ysgol a lleihau y nifer o geir sydd yn dod i'r ysgol yn y bore. Diolch i'r rhieni sydd yn gwirfoddoli!

**"Fee, Fie, Fo, Fum"**
Cynhaliwyd Cyngerdd Nadolig yr Ysgol yn Neuadd y pentref, gan i'r ysgol gyflwyno cynhyrchiad o'r enw, "Fee, Fie, Fo, Fum" sef stori Jac a'r Goeden Ffa. Roedd yn gwbwl amlwg fod pob plentyn wedi mwynhau perfformio. Da iawn chi blant - arbennig o dda! Eleni eto, braf oedd gweld y neuadd yn llawn dop!

**Gig Siarter Iaith**
Aeth plant blwyddyn 5 a 6 i Gig Siarter Iaith ym Mhontrhydfendigaid i wylio a rocio ar y cyd gyda'r bandiau "Mellt" a "Candelas". Roedd pob un o'r plant wedi mwynhau mas draw yn dawnsio'r prynhawn bant!

**Diwrnod Faciwi**
Gan taw "Yr Ail Ryfel Byd" oedd thema blynyddoedd 4, 5 a 6 am y tymor, cawsom ddiwrnod Faciwi a buont yn gwisgo i fyny mewn gwisgoedd tebyg i'r rheiny o'r cyfnod. Roeddent wedi gwneud amryw o weithgareddau drwy'r dydd fel datrys posau, chwilio am gysgodfan wrth glywed y seiren ac hefyd ddilyn ryseitiau a choginio ambell o'r bwydydd o'r cyfnod. Diwrnod llawn hwyl wrth ddysgu am y cyfnod.

**Sinema Libanus, Y Borth**
Diolch i Pete yn Sinema Libanus, Y Borth am roi cyfle i'r plant ddod i'r sinema i wylio'r ffilm "Paddington 2". Roedd y plant a'r staff wedi mwynhau yn fawr wrth wylio'r ffilm yn y sinema gyfforddus newydd.

**Ymweliad gan Siôn Corn a Chinio Nadolig**
Un bore ar ddiwedd y tymor, fe ddaeth Sion Corn i ymweld â'r plant. Roedd ei sach yn llawn anrhegion i'r plant – roedd eu hwynebau yn werth eu gweld gyda llawenydd! Yn y prynhawn, cafodd pawb ginio Nadolig blasus dros ben! Diolch yn fawr iawn Wendy a holl staff y gegin am ei goginio!










GWASANAETH
TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
PROSESYDD GEIRIAU
PRINTYDD LLIW
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â
TEGWYN LEWIS
01970 880627

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH
Arolygon Diogelwch
Asesiadau Peryglon
Archwiliadau Damweiniau
Hyfforddiant
01970 820124
07709 505741

# Ysgol Rhydypennau

**Cinio Nadolig**

Yn dilyn y traddodiad, cynhaliwyd cinio Nadolig i henoed yr ardal ar ddydd Sadwrn cyntaf fis Rhagfyr yn neuadd yr ysgol. Bu Mrs Wendy Jones a'i staff yn brysur iawn yn paratoi'r wledd i 60 o bobl eiddgar iawn. Diolch yn fawr i staff y gegin ac i Bwyllgor yr Henoed am drefnu'r achlysur mor effeithiol.

Ar y 20fed o Ragfyr, bu Mrs Jones a staff y gegin yn brysur eto yn paratoi cinio Nadolig i'r plant a'r staff. Yn ystod y wledd, cyflwynwyd anrhegion o ddiolch i holl staff y gegin am eu gwasanaeth a'r bwyd blasus gydol y flwyddyn.

**Perfformiadau'r Nadolig**

Cafwyd perfformiadau arbennig gan blant yr ysgol i ddathlu'r Nadolig; yn gyntaf, roedd neuadd yr ysgol yn llawn ar fore'r 12fed a'r 13eg ar gyfer cyngerdd Nadolig yr Uned Feithrin. Cafwyd perfformiadau campus yn ystod y ddau fore.

Ac ar y 14eg, yng Nghapel y Garn cynhaliwyd Gwasanaeth Nadolig plant blwyddyn 1-6. Cafwyd gwledd o actio a chanu yn ystod y noson o flaen cynulleidfa gwerthfawrogol iawn. Hoffai'r ysgol ddiolch i aelodau'r Garn am y cydweithrediad a'r cymorth yn ystod yr ymarferiadau a'r perfformiad ar y noson.

Diolch i bawb am eu hymroddiad yn ystod yr ymarferiadau a'r perfformiadau. Diolch i Elfyn Jones, Dolau, am ffilmio'r perfformiadau - mi fydd y DVD yn barod cyn hir.

Diolch arbennig i Meinir Chambers, Banc Barclays am drefnu punt am bunt noson y Garn ac yn y broses codi £1,059.60 i'r ysgol.

**Yn y gymuned**

Ar ddiwedd y tymor fe aeth Mr Allan Philips, athro peripatetig pres y sir, â band pres yr ysgol i ddiddanu henoed Cartref Tregerddan. Mae'r ymweliad hwn yn ddigwyddiad traddodiadol bellach ac mae'r henoed yn disgwyl yn eiddgar i glywed dawn yr offerynwyr. Diolch i Mr Phillips am ei arweiniad a'i barodrwydd i ddangos y talentau lleol yn y gymuned.

Yn ogystal, ar y 19eg o Ragfyr bu rhai o blant yr ysgol yn diddanu cwsmeriaid Archfarchnad Morrisons. Ac o fewn awr codwyd £140!

**Partïon**

Bu'r plant yn ffodus iawn yn ddiweddar gan eu bod wedi cael y cyfle i fwynhau dau barti Nadolig yn ystod yr un wythnos! Ar y 19eg o Ragfyr, trefnwyd y parti cyntaf gan bwyllgor Cymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol rhwng 6:00 a 7:30y.h. Roedd y parti yn agored i bawb yn yr ysgol a chynhaliwyd y dathliadau yn Neuadd Rhydypennau. Hoffai'r ysgol ddiolch i aelodau'r pwyllgor am drefnu'r noson a diolch arbennig hefyd i Siôn Corn am dreulio ychydig o'i amser prin i ddosbarthu anrhegion cynnar i'r plant ffodus ar y noson.

Ar y 21ain, trefnwyd yr ail barti Nadolig i'r holl blant yn ystod oriau'r ysgol. Yn ystod y miri, cafodd y plant gyfle i fwynhau gwledd o fwyd blasus a gorffennwyd y dathliadau gyda gêmau traddodiadol yr ŵyl.

**Clwb Cant**

Mae'r amser wedi cyrraedd eto i ymuno â chlwb cant yr ysgol. Mae Cymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol unwaith eto yn parhau i wahodd rhieni, athrawon a ffrindiau'r ysgol i ymaelodi â'r Clwb 100. Mi fydd yr aelodaeth yn parhau, fel llynedd, am flwyddyn gan ddechrau ym mis Mawrth a gorffen ym mis Rhagfyr.

Bydd hi'n angenrheidiol i bob aelod dalu tâl aelodaeth blynyddol o ddeg punt a fydd yn talu am gost pob cyfle i ennill yn ystod y cyfnod. Cyfanswm yr holl arian, sef gwobrau'r flwyddyn fydd pum can punt. Bydd yr holl elw yn mynd at bwyllgor CRhA ac felly tuag at yr ysgol. Mi fydd y gwobrau misol fel a ganlyn:

1af- £25 2il-£15 3ydd-£10

Os am ymuno â'r clwb cysylltwch â Lynwen Evans ar 01970 822322













# Ysgol Penrhyn-coch

**Dilyn y Seren**
Eleni mi roedd hi'n sioe nadolig anarferol iawn i ddweud y lleiaf! Penderfynwyd dilyn trywydd a hanes y geni wrth ail fyw'r golygfeydd o gwmpas y pentref yn nhywyllwch a naws y nos! Cafwyd dwy noson fythgofiadwy gyda chymorth band pres Aberystwyth yn cyfeilio'r carolau traddodiadol, y Parchedig Lyn Dafis yn datgan neges am anrhegion y doethion ac yna anifeiliad Fferm Pen-banc yn creu naws y stabal ym Methlehem! Mwynheuodd y plant ail greu'r stori a braf cael ymateb gadarnhaol am gynhyrchiad gwahanol gan y rhieni a'r gymdeithas.

**Den Dolig**
Eleni eto roedd yna gystadlaeuaeth frwd rhwng y dosbarthiadau wrth iddyn nhw greu cynnyrch nadoligaidd a gemau i'r ffair.Thema peintio canfasau oedd gan yr adran Cyfnod Sylfaen lle creuwyd darluniau o deuluoedd dynion eira, Peli Pert oedd enw cwmni blwyddyn 3 a 4 lle crewyd peli a lluniau'r plant tu fewn ac yna bu plant Bl 5 a 6 yn bysgio, gwerthu raffl, creu gêmau, gwerthu pecynnau o gynhwysion i wneud 'brownies' ac yn cael llawer o hwyl! Hoffwn ddiolch i bawb am y gefnogaeth ac i'r rhieni fuodd yn cynorthwyo yn ystod y diwrnodau cyn hynny ac ar y noson.

**Cinio Cymuned**
Cyn diwedd y tymor mwynheuodd plant Bl 3 a 4 ganu cyfres o garolau i ddiddanu aelodau'r cinio cymuned yn Neuadd yr eglwys yn ogystal a hynny bu'r plant yn brysur yn creu cardiau nadolig ac roedd eu postio ar droed o gwmpas yr Ysgol yn dipyn o hwyl! Roedd nifer o drigolion y pentre wrth eu boddau yn gweld y plant yn canu carolau, sgwrsio gydag hwn a llall wrth bostio'r cardiau.

**Parti**
Eleni eto hoffwn ddiolch i'r rheini a roddodd ddigon o fwyd i'r parti ac i'r criw o famau fuodd yn gweini ac yn paratoi. Diolch i Siôn Corn am ymweld gyda'r plant i gyd, i'r swyddfa post am ddarparu y craceri ac i deulu Garej Tŷ Mawr am y pecynnau siocled-plant lwcus iawn!

**Gig Mawreddog**
Aeth disgyblion Bl 5 a 6 i fwynhau cyn diwedd y tymor mewn Gig arbennig ym Mhafiliwn Bont - mwynheuodd pawb yn cynnwys yr athrawon!

**Croeso i ddisgyblion newydd**
Hoffwn fel Ysgol groesawu disgyblion newydd i'r dosbarth Derbyn sef - Mabli, Jacob, Kaeden ac Alisha. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn ein plith.









**Cristingl**
Diolch i 'r Parchedig Lyn Dafis am gynnal ein gwasanaeth Cristingl eleni eto-cafwyd naws hyfryd a nadoligaidd wrth glywed y disgyblion yn canu, athrawon yn llefaru ac wrth gwrs cofio neges y geni wrth gynnau y canhwyllau.

Porchell
Eich cigydd lleol
PEN-Y-GARN
FFON 828 447
LLUN: 9-5.30
MAW-SAD 8.00-5.30
Gwerthir ein cynnyrch mewn rhai siopau lleol

D J Evans
Cyfarwyddwyr Angladdau
Busnes teuluol gyda dros 60 mlynedd o brofiad
Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ
Gwasanaeth personol, urddasol gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
evansfunerals@talk21.com
Aberystwyth 01970 615328
Penrhyn-coch 01970 820249
Machynlleth 01654 700006

Trefnwyr Angladdau
C T Evans
Gwasanaeth Angladdol Teuluol Cyflawn, wedi ei arwain yn bersonol gydag urddas. Capel Gorffwys Preifat, Gwasanaeth Dydd a Nos.
01970 820013
gwyn@ct-evans.co.uk
Brongenau, Llandre, Aberystwyth SY24 5BS

# Tasg y Tincer

Dyma fi o'r diwedd yn cael cyfle i ddweud Blwyddyn Newydd Dda i bob un ohonoch chi. Ddaru chi fwynhau'r gwyliau? Wel, dim ond tri fu'n lliwio'r llun yn y rhifyn diwetha, sef Elin Pierce Williams a Dylan Herron o Bow Street, a Lois Martha Roberts, Bont-goch. Dy lun di, Lois, ddaeth o'r het y tro hwn – da iawn! Ond diolch i ti, Dylan, am dy lun o'r tri yn morio canu. Dalia at i gystadlu! Diolch hefyd i ti, Elin, am liwio mor hynod o daclus, fel arfer.

Fuoch chi'n hel calennig o ddrws i ddrws fore Calan? Mae gen i ffrind yn ardal Llangeitho gafodd 9 ymwelydd ifanc y bore hwnnw! Tybed a fuoch chi'n canu'r pennill sy'n dechrau fel hyn?

*Dydd calan yw hi heddiw,*
*rwy'n dyfod ar eich traws*
*i ofyn am y geiniog,*
*neu grwst, a bara a chaws.*


Wyddoch chi o ble daw'r enw *Ionawr*? Mae'n debyg mai o'r gair Lladin *Janus* y mae'r enw'n dod, ac mae gan sawl iaith air tebyg am fis cyntaf y flwyddyn, yn does? Janvier (Ffrangeg), Januar (Daneg a Norwyeg), Genver (Cernyweg) ... beth am ddod o hyd i rai eraill ar y we? Duw Rhufeinig oedd Janus, ac roedd ganddo ddau wyneb! Roedd un yn edrych yn ôl ac un yn edrych ymlaen. Dyna a wnawn ni'n aml ar ddechrau'r flwyddyn – edrych yn ôl ar y flwyddyn sydd newydd fynd heibio a phopeth a ddigwyddodd, ond edrych ymlaen yn fawr at y flwyddyn sydd newydd gyrraedd. Wnaethoch chi unrhyw addunedau ar Ionawr y 1af? Ydych chi'n cadw atyn nhw, tybed?!

Y mis hwn, beth am liwio'r llun er mwyn croesawu 2018 mewn steil? Anfonwch eich gwaith i'r cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP erbyn 1 Chwefror, ta ta tan toc!



Lois

CYMRAEG
Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru



**Enw**

**Cyfeiriad**

**Ysgol**

**Rhif ffôn** **Oed**

SIOP Y PETHE
Llyfrau, Cardiau Cyfarch a Cherddoriaeth a llond llawr o Grefftau ac Anrhegion
**01970 617120**
Nawr yn cynnig gwasanaeth Cliciwch a Casglwch ar ein gwefan
www.siopypethe.cymru



JONATHAN LEWIS
Saer Coed / Adeiladydd
01970 880 652
07773 442 260
BRONLLYS, CAPEL BANGOR
ABERYSTWYTH

ISSN 0963-925X
9 770963 925009
*Rhif 405 | IONAWR 2018*